Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

Cynulleidfa

Addysg gychwynnol athrawon (AGA) Partneriaethau gan gynnwys sefydliadau addysg uwch (SAUau) ac ysgolion a gynhelir yng Nghymru; Bwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); Cyngor Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysg i Athrawon Cymru (USCET Cymru); Estyn; athrawon dan hyfforddiant ar raglenni AGA; pawb sy'n ystyried AGA; awdurdodau lleol; consortia; cymdeithasau proffesiynol ac undebau athrawon; adrannau addysg llywodraeth ganolog; partïon eraill â diddordeb.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion ansawdd ar gyfer darpariaeth AGA. Er mwyn cefnogi'r rheini sy'n ymwneud ag AGA i ddeall gofynion y meini prawf ar gyfer achredu. Ei nod yw sicrhau bod y ddarpariaeth AGA yng Nghymru yn gyson, o ansawdd uchel, yn cefnogi'r broses o wella'r sector addysg yng Nghymru a bod cyfle i ddangos creadigrwydd ac arloesedd.

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu rhwng 2026 a 2027 i gefnogi'r gwaith parhaus o wella ansawdd rhaglenni AGA yng Nghymru yn unol â'r broses achredu annibynnol a gynhaliwyd gan y Bwrdd Achredu Addysg Athrawon yng Nghyngor y Gweithlu Addysg.

Y camau y mae angen eu cymryd

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymwneud ag AGA, gan gynnwys athrawon dan hyfforddiant, partneriaethau AGA a'r rheini sy'n cyflogi ac yn cefnogi athrawon newydd gymhwyso (ANGau). Dylai pawb sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag AGA a chynllunio cyrsiau allu cael gafael arni a bod yn ymwybodol o'r cefndir statudol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:
Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Adran Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 604400
e-bost: ITEducationAddysgGA@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn
Rhaglenni addysg gychwynnol athrawon: meini prawf achredu | LLYW.CYMRU

Dogfennau cysylltiedig

Addysgu Athrawon Yfory gan Lywodraeth Cymru (2015)
A Flying Start: Improving Initial Teacher Preparation Systems gan OECD (2019)

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46784, ISBN digidol 978-1-80535-756-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog **4**

Crynodeb Gweithredol **5**

Ein taith i ddiwygio AGA 5

Addysgu fel taith broffesiynol gydol gyrfa 6

Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru 7

Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru **9**

1. Gweledigaeth o'r athrawon sydd eu hangen yng Nghymru 9

    1.1 Addysg gychwynnol athrawon - y cam cyntaf 9

    1.2 Athrawon fel dysgwyr cydweithredol gydol oes 10

2. Gweledigaeth o'r modd y mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu 10

    2.1 Gwybodaeth sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd – dysgu ‘am’ addysgu 10

    2.2 Gwybodaeth a geir drwy ymarfer ‘anuniongyrchol’ 10

    2.3 Gwybodaeth ymarferwyr arbenigol 11

    2.4 Gwybodaeth integredig – dysgu ‘drwy’ addysgu 11

    2.5 Gwybodaeth bersonol 11

3. Gweledigaeth o sut i gyflawni hynny – ysgolion a SAUau yn gweithio mewn partneriaeth 12

    3.1 Goblygiadau i ysgolion 12

    3.2 Goblygiadau i SAUau 12

    3.3 Goblygiadau o ran sut mae ysgolion a SAU yn cydweithio 12

Adran B: Strwythurau, prosesau a mewnbynnau rhaglenni AGA **14**

4. Strwythurau a phrosesau rhaglenni 14

    4.1 Arwain a rheoli’r Bartneriaeth 14

    4.2 Meini prawf ar gyfer cynnwys ysgolion yn y Bartneriaeth 17

    4.3 Rolau a chyfrifoldebau mewn pob Ysgol Bartner 18

    4.4 Rolau a chyfrifoldebau Ysgolion Partner Arweiniol 20

    4.5 Rôl SAUau 21

    4.6 Y Gymraeg 22

5. Mewnbwn rhaglenni 24

    5.1 Y weledigaeth ar gyfer dysgu athrawon dan hyfforddiant 25

    5.2 Amcanion y cwrs 25

    5.3 Mathau o Gyrsiau 25

    5.4 Cynllun y cwrs a’r meysydd astudio 26

    5.5 Gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol 27

    5.6 Y Cwricwlwm i Gymru ac astudiaethau pwnc 28

    5.7 Nodi a diwallu anghenion dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol 30

    5.8 Llesiant 30

    5.9 Cynnwys y rhaglen 30

    5.10 Profiad mewn ysgol 31

5.11 Deddf Cydraddoldeb 2010, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA) 32
5.12 Asesu athrawon dan hyfforddiant 32
Adran C: Canlyniadau'r rhaglenni 35
6. Canlyniadau'r rhaglenni – safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig 35
6.1 Cyrraedd y safonau ar gyfer statws athro cymwysedig 35
6.2 Safonau ar gyfer sefydlu 37
Rhestr termau 38
Cyfeiriadau 41
Atodiad 1: Cyfrifoldebau Statudol Estyn a Chyngor y Gweithlu Addysg mewn perthynas â Rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon 44
Cyngor y Gweithlu Addysg 44
Estyn 44
Atodiad 2: Gofynion mynediad ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru 45
Gofynion mynediad: Cymwysterau 46
TGAU a Safon Uwch 46
Statws gradd ar gyfer addysgu 46
Atodiad 3: Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig – mwy o gyngor i bartneriaethau AGA wrth ddylunio rhaglenni 47
Cyflwyniad 47
Addysgeg 48
Mireinio addysgu... i sicrhau ymarfer effeithiol iawn a pharhaus 48
Datblygu dysgu... drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol 49
Dylanwadu ar ddysgwyr - meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr 51
Cydweithio 52
Ceisio cyngor a chymorth a galluogi gwelliant 53
Gweithio gyda chydweithwyr mewn ysgolion a chefnogi a datblygu eraill 53
Dysgu proffesiynol 53
Deunydd darllen ehangach ac ymchwil 53
Dysgu proffesiynol parhaus 54
Sgiliau yn y Gymraeg 54
Arloesi 54
Datblygu technegau newydd a chynnig arbenigedd 54
Gwerthuso effaith newidiadau mewn ymarfer 54
Arweinyddiaeth 55
Cymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain 55
Arfer cyfrifoldeb corfforaethol 55
Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni 55
Cefnogi rolau arwain ffurfiol 56
Atodiad 4: Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY 57
Recriwtio: gwybodaeth dechnegol i Bartneriaethau 58

Meini prawf ar gyfer rhaglen AGA gynradd i raddedigion ag arbenigedd ADY 58
Ysgolion Partner 58
Cyfrifoldebau Ysgolion a SAUau 59
Y Gymraeg 59
Cynllunio cyrsiau 59
Gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol 59
Cynnwys y rhaglen 59
Canlyniadau'r rhaglenni 59

Rhagair gan y Gweinidog

Y weledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon (AGA) yng Nghymru yw bod gan ysgolion a sefydliadau addysg uwch (SAUau) rôl gyfartal i'w chwarae wrth gynnig y cydbwysedd rhwng theori ac ymarfer i sicrhau profiad dysgu o ansawdd uchel i athrawon y dyfodol. Er mwyn cael gweithlu addysgu o ansawdd uchel, mae angen cynnig AGA o ansawdd uchel i ddenu graddedigion galluog ac uchelgeisiol i mewn i'r proffesiwn.

Ers i'r diwygiadau AGA ddechrau, mae'r proffesiwn addysg yn ein hysgolion a'n SAUau wedi bod yn gweithio'n galed ac yn greadigol i gynllunio a chyflawni cymwysterau athrawon ysgol newydd â Statws Athro Cymwysedig ar gyfer eu myfyrwyr. Maent wedi ymgorffori'r uchelgais ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru, fel yr amlinellir yn Addysg Athrawon Yfory, drwy weithio mewn partneriaeth wirioneddol er mwyn paratoi athrawon dan hyfforddiant i fod yn rhan o'r proffesiwn drwy heriau pandemig COVID-19 ac er gwaethaf yr heriau hynny.

Mae'r Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru yn parhau i egluro ein disgwyliadau a'n gofynion o Bartneriaethau AGA. Mae'r rhain yn parhau i fod fel a ganlyn:

- Rôl fwy i ysgolion
- Rôl gliriach i Sefydliadau Addysg Uwch
- Cydberchnogaeth o ran rhaglen addysg gychwynnol i athrawon
- Cyfleoedd strwythuredig i gysylltu addysg ysgolion a SAUau
- Rôl ganolog gwaith ymchwil.

Mae ein gweithlu addysgu yn hanfodol i lwyddiant ein diwygiadau addysg gyda'r Cwricwlwm i Gymru yn rhan greiddiol o hynny. Yng Nghymru, credwn fod addysgu yn ymdrech ymarferol iawn a hynod ddeallusol a bod rhaglenni AGA o ansawdd uchel yn hanfodol i baratoi athrawon ar gyfer eu llwybrau dysgu gydol oes eu hunain mewn byd sy'n newid yn barhaus. Fel y cam cyntaf hwnnw, mae AGA yn sicrhau bod ein hathrawon newydd wedi'u paratoi i fynd i'w hystafelloedd dosbarth, yn cael eu llywio gan ymchwil a mathau eraill o dystiolaeth, yn uchelgeisiol ac yn meddu ar y gallu i barhau i ddysgu ac yn barod i gefnogi pob dysgwr â safonau uchel ac uchelgeisiau i bawb, ar draws cyd-destunau ysgol amrywiol Cymru.

Fy nod yw sicrhau bod Cymru'n parhau i ddatblygu proffesiwn addysg myfyriol, chwilfrydig a chydweithredol, a diwylliant o gyfrifoldeb ar y cyd mewn perthynas â dysgu proffesiynol. Mae'r Meini Prawf i adnewyddu ac atgyfnerthu cyfrifoldebau ysgolion a SAUau i sicrhau ansawdd ein darpariaeth AGA ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac mae gan addysgwyr athrawon yng Nghymru rôl allweddol i sicrhau athrawon yfory.



Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Crynodeb Gweithredol

Ein taith i ddiwygio AGA

Mae ein gwaith parhaus i ddiwygio addysg, gyda'r Cwricwlwm i Gymru yn ganolbwynt iddo, yn ymdrech genedlaethol a rennir. Mae ein cwricwlwm newydd, a luniwyd gan ein proffesiwn addysgu ar y cyd ag arbenigwyr, yn cynnig cyfle unigryw i gefnogi ein dysgwyr i gael budd o addysg eang, gytbwys a dwyieithog. Mewn cwricwlwm a arweinir gan ddiben sy'n ategu'r weledigaeth a'r dyhead ar y cyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, mae cyfuniad o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn nodi safonau uchel i bawb. Pedwar diben y cwricwlwm yw'r weledigaeth a dyhead a rennir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Maent yn wir am ein hathrawon a'n hathrawon dan hyfforddiant sy'n esiampl ohonynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod pwysigrwydd ein proffesiwn addysg a'i fod yn allweddol i gyflawni ein gweledigaeth a rennir a nodir uchod, gyda'r broses o ddiwygio addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru yn dylanwadu ar y diwygiadau ehangach a'r cwricwlwm ac yn manteisio arnynt. Ein system AGA newydd yw penllanw sawl proses ddiwygio rhyng-gysylltiedig a rhyngddibynnol dros y pum mlynedd diwethaf; ein cwricwlwm newydd, Cymraeg 2050 a fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg, y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd, y diwygiadau i'r safonau proffesiynol (gan gynnwys disgrifyddion Statws Athro Cymwysedig (SAC)), y daith dysgu proffesiynol, gwelliannau i gyllid myfyrwyr a newidiadau rheoliadol ar gyfer achredu AGA.

Gwnaeth adroddiad yr Athro Furlong *Addysgu Athrawon Yfory* (Prifysgol Rhydychen, 2015), argymhellion allweddol i ddiwygio'r system AGA yng Nghymru â chysylltiadau clir i adroddiad yr Athro Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2015), gan nodi'r weledigaeth ar gyfer datblygu'r athrawon a fyddai eu hangen yng Nghymru i gyflawni ein dyheadau.

Aeth iteriad cyntaf y meini prawf hyn, a gyhoeddwyd yn 2017, ac a ddrafftiwyd gan yr Athro Furlong a fforwm Arbenigol Addysg Gychwynnol Athrawon, ati i egluro'r gofyniad newydd ar gyfer AGA yng Nghymru:

- Rôl ganolog i ysgolion
- Rôl gliriach i brifysgolion
- Cydberchnogaeth o ran rhaglen addysg gychwynnol athrawon
- Cyfleoedd strwythuredig i gysylltu addysg ysgolion a phrifysgolion
- Canolrwydd gwaith ymchwil a mathau eraill o dystiolaeth systematig.

Erys ein gweledigaeth a'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer AGA yng Nghymru; mae'r meini prawf yn parhau i amlinellu model lle mae gan ysgolion a sefydliadau addysg uwch (SAUau) ran gyfartal i'w chwarae wrth gynnig y cydbwysedd rhwng theori ac ymarfer i sicrhau profiad dysgu o ansawdd uchel i athrawon y dyfodol) (OECD, 2012), (BERA:RSA, 2014). Fel y nododd adolygiad OECD yn 2019 i system AGA Cymru (*ITE programme accreditation in Wales as a means to strengthen research-informed initial teacher education programmes*), mae ein dull o gydnabod 'schools as an important partner in the design and delivery of initial teacher education programmes and the creation and use of research' yn gryfder.

Felly, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddefnyddio'r Meini Prawf i amlinellu cyfrifoldebau ysgolion a SAUau i sicrhau ansawdd ein darpariaeth AGA ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a sicrhau galluedd mewn rolau allweddol addysgwyr athrawon er mwyn sicrhau 'athrawon yfory'. Rydym yn parhau i ystyried bod addysgu yn ymdrech ymarferol iawn a

hynod ddeallusol. Mae'r *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru: Addysgu Athrawon Yfory* yn cefnogi'r safbwynt hwn ac yn darparu'r fframwaith deallusol sy'n galw am ac yn cydbwyso dulliau arloesol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer darpariaeth gyson, o ansawdd uchel ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Mae hyn yn galluogi ein hathrawon newydd i fod yn barod i fod yn rhan o'r proffesiwn addysgu dwyieithog ac i gefnogi blaenoriaethau hirdymor Llywodraeth Cymru.

Roedd ein rhaglenni AGA achrededig, sydd ar gael ers y flwyddyn academaidd 2019/20, yn cynrychioli mwy na phum mlynedd o waith diwygio yn y sector yn deillio o waith ymchwil ac argymhellion yr Athro Furlong, a gwaith ac ymrwymiad y sector AGA i addysg yng Nghymru. Bydd y meini prawf diwygiedig hyn yn llywio rhaglenni AGA yn y dyfodol a achredir gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg ac yn arwydd o'r ymrwymiad cenedlaethol parhaus i'r diwygiadau a'r daith barhaus tuag at sicrhau proffesiwn addysgu dwyieithog o ansawdd uchel a gefnogir yn dda.

Addysgu fel taith broffesiynol gydol gyrfa

Ni ddaw taith datblygu athrawon i ben pan gaiff rhaglen AGA ei chwblhau'n llwyddiannus a phan gaiff SAC ei ddyfarnu. Yn hytrach, mae'n cynnwys twf proffesiynol drwy ymgysylltiad parhaus mewn dysgu gydol gyrfa, cydweithio ac arloesedd.

Fel y nodir gan yr OECD, ni ddylid disgwyl i raglenni AGA gwmpasu 'all the possible competences for teachers, or to anticipate all the potential situations that new teachers may encounter.' (2019:135, *A Flying Start: Improving Initial Teacher Preparation Systems*). Yn hytrach, mae angen cysyniadu dysgu fel athro dan hyfforddiant fel y cam cyntaf mewn continwwm dysgu proffesiynol. Yng Nghymru, mae ein hathrawon yn datblygu o AGA drwy eu cyfnod sefydlu statudol a thu hwnt. Mae AGA fel y cam cyntaf hwnnw yn sicrhau bod ein hathrawon newydd wedi'u paratoi i fynd i'w hystafelloedd dosbarth, yn cael eu llywio gan ymchwil a mathau eraill o dystiolaeth, yn uchelgeisiol ac yn meddu ar y gallu i barhau i ddysgu ac yn barod i gefnogi pob dysgwr yng nghyd-destunau ysgol amrywiol Cymru. Mae'r gofyniad hwn i 'supporting teachers' professional learning from the beginning to the end of their career is critical to fostering high-quality teaching' (OECD 2021:4) *Teachers' professional learning study: Diagnostic report for Wales*) a chaiff ei ategu gan y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

Mae AGA fel y cam cyntaf yn cefnogi ein dyhead ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau proffesiwn dwyieithog sy'n:

- broffesiwn o safon uchel sy'n gydweithredol ac yn cael ei ysgogi gan ddealltwriaeth ddofn o addysgeg a gwybodaeth bwnc
- ymgymryd â gwaith ymchwil, yn hyddysg ac yn dysgu o ragoriaeth ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- atyniadol gyda morâl uchel a llawer o foddhad proffesiynol
- cael cefnogaeth dda gan ystod o weithwyr cymorth dysgu proffesiynol sy'n gallu darparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pob plentyn
- edrych tuag allan ac wedi ymrwymo i godi safonau o fewn ysgolion a rhyngddynt
- creu amgylcheddau bywiog, cynnes a gofalgar sy'n ysbrydoli dysgu
- cael ei arwain yn dda gan arweinwyr a fydd yn sicrhau y gall pob athro wella drwy gydweithio effeithiol, arloesi, dysgu proffesiynol a chyfleoedd i roi arweinyddiaeth broffesiynol i eraill.

Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru

Nod *Y meini prawf ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* yw sicrhau AGA cyson, o ansawdd uchel, gyda chyfle i ddangos arloesedd. Mae gan athrawon dan hyfforddiant hawl i gael rhaglenni o ansawdd uchel sy'n eu galluogi i fod yn broffesiynol, yn uchelgeisiol ac yn barod i fod yn rhan o'r proffesiwn addysgu. Mae gan ysgolion a SAUau ran allweddol yn recriwtio ac yn addysgu athrawon dan hyfforddiant ynghyd â phartneriaid allweddol eraill, fel awdurdodau lleol, sefydliadau gwella ysgolion, Cyngor y Gweithlu Addysg, Estyn, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, a chymdeithasau proffesiynol eraill sy'n cymryd rhan yn system addysgol Cymru.

Mae gofyniad statudol i sicrhau dyfarniad SAC er mwyn addysgu ym mhob lleoliad a gynhelir yng Nghymru. Mae'r Meini Prawf hyn wedi'u cynllunio i alluogi athrawon dan hyfforddiant i gyflawni'r disgrifyddion SAC a dangos tystiolaeth ohonynt mewn rhaglenni sy'n canolbwyntio ar baratoi athrawon ar gyfer ysgolion yng Nghymru – gan gynnwys ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog. Eu nod yw bod yn briodol ar gyfer cymwysterau AGA amser llawn a rhan-amser. Pan fydd Partneriaethau'n ystyried datblygu mathau newydd o gymwysterau AGA (er enghraifft â strwythurau cyrsiau gwahanol iawn) cânt eu hannog i drafod eu cynigion â Chyngor y Gweithlu Addysg ar y cyfle cyntaf er mwyn penderfynu a ellir bodloni'r Meini Prawf hyn a sicrhau dyfarniad SAC. Mae atodiad ychwanegol hefyd yn trafod mathau newydd posibl o ddarpariaeth mewn perthynas â pharatoi athrawon dan hyfforddiant ar gyfer y cyfnod cynradd ag arbenigedd ADY. Caiff Partneriaethau eu hatgoffa nad yw'r ffaith bod cwrs yn cael ei achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysgu yn golygu o reidrwydd y caiff myfyrwyr eu neilltuo i'r rhaglen honno gan Lywodraeth Cymru.

Mae strwythur dogfen meini prawf yr achrediad yr un fath â'r iteriad blaenorol, wedi'i rhannu'n dair rhan:

- *Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*. Mae adran A yn nodi'r gofyniad i gael gweledigaeth glir ar gyfer Partneriaethau AGA a'u rhaglenni. Mae'r weledigaeth hon yn ategu ac yn llywio'r gofynion yn adrannau B ac C.
- *Adran B: Strwythurau, prosesau a mewnbynnau rhaglenni AGA*. Mae adran B yn nodi manylion y bartneriaeth gydweithredol rhwng SAUau ac ysgolion. Dylai'r cydweithio hwn fod yn amlwg yng ngweledigaeth, polisïau, strwythurau, datblygiad cwricwlwm ac arferion y Bartneriaeth AGA. Y Bartneriaeth hon fydd yn cyflwyno'r rhaglen achredu. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi trosolwg o bynciau y dylid mynd i'r afael â nhw yng nghyd-destun rhaglenni AGA yng Nghymru.
- *Adran C: Canlyniadau'r rhaglenni*. Mae adran C yn amlinellu canlyniadau rhaglenni AGA a'r disgwyliad sylfaenol y bydd pob athro dan hyfforddiant yn cyflawni disgrifyddion SAC y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysg ac Arweinyddiaeth. Mae dyfarniad SAC yn creu'r sail ar gyfer continwwm o addysg athrawon a datblygiad proffesiynol.

Mae'r atodiadau'n rhoi gwybodaeth ychwanegol a defnyddiol am y trefniadau arolygu a monitro ar gyfer AGA yng Nghymru, y gofynion y dylai pob athro dan hyfforddiant eu bodloni er mwyn cael ei dderbyn ar raglen AGA, a rhagor o gyngor ac arweiniad i bartneriaethau ynghylch y mathau o ddarpariaeth y mae angen iddynt ei chynnig i athrawon dan hyfforddiant er mwyn iddynt allu dangos yr holl ddisgrifyddion SAC perthnasol o dan y safonau proffesiynol. Ceir atodiad ychwanegol hefyd sy'n amlinellu hyblygrwydd dros dro i'w

archwilio a'i dreialu, mathau newydd posibl o ddarpariaeth mewn perthynas â pharatoi athrawon dan hyfforddiant ar gyfer y cyfnod cynradd gydag arbenigedd ADY.

Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

Yn 2019, cyhoeddodd yr OECD ganfyddiadau ei astudiaeth o systemau AGA mewn saith gwlad ledled y byd, gan gynnwys Cymru. Mae ei adroddiad terfynol, *A Flying Start: Improving Initial Teacher Preparation Systems* (OECD, 2019), yn dechrau drwy nodi'r angen i bob system ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer AGA gydag ymrwymiad gan ddarparwyr i weithio tuag ati. Mae'n awgrymu bod cael gweledigaeth gyffredin y cytunir arni yn helpu partneriaid gwahanol i gydweithio (ysgolion, SAUau, sefydliadau gwella ysgolion, awdurdodau lleol ac ati) yn enwedig pan fydd gan y partneriaid hyn ddibenion craidd ac agendâu gwahanol.

Gan adeiladu ar adroddiad yr OECD, nodir y weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru sy'n sail i'r meini prawf hyn isod: mae ganddo nifer o ddimensiynau gwahanol ac wrth ddatblygu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer AGA, bydd angen i Bartneriaethau sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth lawn i bob un o'r materion allweddol hyn.

1. Gweledigaeth o'r athrawon sydd eu hangen yng Nghymru

Mae addysgu yng Nghymru yn newid. Er enghraifft, mae:

- cwricwlwm newydd
- trefniadau asesu newydd
- trefniadau gwella ysgolion newydd
- fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer nodi anghenion dysgwyr ADY, cynllunio ar eu cyfer a'u diwallu
- yr angen i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel rhan o'r dull hirdymor o gyflawni dyhead Cymraeg 2050 o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg
- mwy o bwyslais ar gefnogi llesiant pob dysgwr a chydnabyddiaeth newydd o bwysigrwydd dysgu ac addysgu gwrth-hiliol
- pwyslais cynyddol ar gydweithio rhwng ysgolion
- y diwylliant sy'n datblygu mewn ysgolion o ymarfer sydd wedi'i lywio gan dystiolaeth ac sy'n seiliedig ar ymholi
- ysgolion cymunedol sy'n mynd i'r afael ag effaith anfantais, tlodi ac anghydraddoldeb ar gyrhaeddiad.

Mae gan yr holl newidiadau hyn oblygiadau ar gyfer yr hyn y bydd yn ei olygu i fod yn athro yng Nghymru yn y degawdau sydd i ddod. Fodd bynnag, y newid mwyaf sylweddol yw'r gydnabyddiaeth amlwg gan Lywodraeth Cymru bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn allweddol er mwyn codi ansawdd dysgu ac addysgu yn ein hysgolion. Athrawon ac ysgolion sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n gywir ar gyfer eu dysgwyr penodol; athrawon ac ysgol sydd â rhan allweddol yn y broses o ddatblygu trefniadau asesu priodol. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn galw am ‘broffesiynoldeb newydd’ ar gyfer athrawon yng Nghymru.

Mae gan y weledigaeth hon ddau oblygiad pwysig ar gyfer AGA:

1.1 Addysg gychwynnol athrawon - y cam cyntaf

O ystyried ein dyheadau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, y goblygiad cyntaf yw ei bod yn bwysicach nag erioed bod pob athro newydd yn cyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer cael dyfarniad statws athro cymwysedig (SAC). Nodir y safonau gofynnol hyn yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Ar yr un pryd, mae'n bwysig cydnabod

bod AGA yn union yr hyn y mae'n ei ddweud: mae'n ‘gychwynnol’. Fel y nodir gan yr OECD, ni ddylid disgwyl i raglenni AGA gwmpasu ‘all the possible competences for teachers, or to anticipate all the potential situations that new teachers may encounter.’ (OECD 2019:135). Yn hytrach, mae angen cysyniadu anghenion dysgu proffesiynol cynnar fel continwwm, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae addysgu yn galw amdano.

Wrth ddylunio eu rhaglenni, bydd angen i Bartneriaethau gael dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef mewn addysg gychwynnol athrawon, a'r hyn a gaiff ei gwmpasu yn ystod blwyddyn gyntaf gyrfa athro newydd. Bydd hyn yn cynnwys dylunwyr yn gweithio'n agos gyda'r sawl sy'n gyfrifol am sefydlu, a dysgu proffesiynol pellach yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

1.2 Athrawon fel dysgwyr cydweithredol gydol oes

Yr ail oblygiad yw y bydd angen i bob athro fod yn ddysgwr cydweithredol gydol oes er mwyn i'r proffesiwn addysgu fodloni ein dyheadau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Bydd angen iddynt weithio gydag eraill yn eu hysgolion eu hunain a thu hwnt wrth roi newidiadau ar waith; ond bydd hefyd angen iddynt allu defnyddio'r profiad o weithio gydag amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac amrywiaeth eang o dystiolaeth yn barhaus er mwyn cwestiynu, addasu a gwella eu hymarfer eu hunain. Y strategaethau hyn sydd wrth wraidd y proffesiynoldeb newydd sydd ei angen ar athrawon y dyfodol yng Nghymru.

Felly, un o nodau canolog AGA yw datblygu'r proffesiynoldeb hwn yn y genhedlaeth nesaf o athrawon, gan sicrhau bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r ymrwymiad i barhau fel dysgwyr proffesiynol cydweithredol drwy gydol eu gyrfaoedd.

2. Gweledigaeth o'r modd y mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu

Wrth wraidd y meini prawf hyn mae ymrwymiad i sicrhau bod AGA yng Nghymru yn ‘fanwl ymarferol ac yn her ddeallusol ar yr un pryd.’ Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, mae'r meini prawf yn cydnabod yn bendant bod dysgu er mwyn addysgu yn galw am ddefnyddio nifer o ffynonellau gwahanol o wybodaeth broffesiynol.

2.1 Gwybodaeth sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd – dysgu ‘am’ addysgu

Yn y rhan fwyaf o raglenni AGA ledled y byd, caiff athrawon dan hyfforddiant y cyfle i ymwneud â ffurfiau ar wybodaeth sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd, gan ddysgu ‘am’ addysgu. Cânt eu cyflwyno i wybodaeth o waith ymchwil ac o waith theori a chânt y cyfle i archwilio enghreifftiau o arferion da o ysgolion yn lleol ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, yng Nghymru gall athrawon dan hyfforddiant ystyried tystiolaeth bod mwy na 31% o ddysgwyr yn ysgolion y wlad wedi'u dosbarthu fel pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi neu fod angen i tua 20% o boblogaeth ysgolion gael cymorth ychwanegol; yna efallai y byddant yn dysgu am y cysylltiadau posibl rhwng y ffeithiau hyn a damcaniaethau gwahanol o dangyflawniad addysgol. Mewn cyrsiau traddodiadol, mae llawer o'r math hwn o ddysgu wedi digwydd mewn SAUau. Mae dysgu am y materion hyn, a datblygu eu safbwynt beirniadol eu hunain amdanynt yn amlwg yn bwysig i athrawon newydd, ond ar yr un pryd, mae'r cysylltiadau â'r byd ymarfer yn gymhleth ac weithiau'n anuniongyrchol.

2.2 Gwybodaeth a geir drwy ymarfer ‘anuniongyrchol’

Mae cyrsiau a arweinir gan SAUau hefyd wedi cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu ymarferol ‘anuniongyrchol’ yn draddodiadol. Er enghraifft, gall myfyrwyr archwilio gofynion presennol y cwricwlwm, gallant ddatblygu cynlluniau gwersi enghreifftiol, neu gallant ymgymryd â ‘micro addysgu’ – gan addysgu rhannau o wersi i'w cydfyfyrwyr. Mae'r holl fathau gwahanol

hyn o ddysgu yn cefnogi'r broses o feithrin gwybodaeth ymarferol myfyrwyr ac maent yn arbennig o werthfawr ar gamau cynnar rhaglenni AGA. Fodd bynnag, dim ond profiad anuniongyrchol a geir o ymarfer. Mae'n realiti sydd wedi'i symleiddio gan ei fod yn digwydd yn niogelwch yr ystafell seminar, yn bell o gymhlethdodau go iawn ysgolion eu hunain.

2.3 Gwybodaeth ymarferwyr arbenigol

Mewn rhaglenni AGA sefydledig, bydd pob athro dan hyfforddiant hefyd yn cael cyfleoedd rheolaidd i weithio ochr yn ochr ag ymarferwyr profiadol, a gydnabyddir am eu hymarfer addysgu hynod effeithiol, sy'n gweithredu fel mentoriaid. Drwy'r gydberthynas hon, maent yn cael mynediad i ddoethineb ymarferol yr athrawon hynny, a'u gwybodaeth ymarferol. Mae mentoriaid hyfforddedig yn cefnogi'r math hwn o ddysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol:

- modelu addysgu da
- cefnogi athrawon dan hyfforddiant wrth iddynt arsylwi ar yr amgylchedd dysgu, gan eu helpu i 'weld' cymhlethdodau'r hyn sydd dan sylw
- ymgysylltu mewn gwaith cynllunio ar y cyd
- ymgysylltu â gwaith addysgu ar y cyd
- arsylwi a rhoi adborth ar yr agweddau a ddewiswyd o berfformiad yr athro dan hyfforddiant
- yng nghamau diweddarach profiad ysgol, gall mentoriaid hefyd ddychwelyd i addysgu cydweithredol, gan weithio gyda'u myfyriwr fel 'cyd-ymholydd' ar agwedd allweddol ar ymarfer yn yr amgylchedd dysgu.

Drwy'r holl strategaethau gwahanol hyn, bydd athrawon dan hyfforddiant yn cael mynediad i arbenigedd ymarferwyr profiadol, sydd, yn ei dro, yn eu helpu i ddatblygu a mireinio eu 'gwybodaeth ymarferol' eu hunain.

2.4 Gwybodaeth integredig – dysgu 'drwy' addysgu

Felly, mae rhai agweddau ar AGA yn seiliedig ar ddeallusrwydd yn bennaf ac mae eraill yn fwy ymarferol. Fodd bynnag, mae hefyd angen i athrawon dan hyfforddiant gael y cyfle i ddysgu mewn ffordd sy'n cyfuno'r dulliau hyn. Mae angen iddynt gael cyfleoedd i ddysgu am addysgu mewn ffordd integredig; dysgu drwy addysgu.

Er enghraifft, wrth edrych ar gynwysoldeb mewn addysgu, mae angen i athrawon dan hyfforddiant gael cyfle i arsylwi ar athrawon profiadol wrth iddynt gynllunio a chyflwyno gwersi i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Fodd bynnag, mae hefyd angen iddynt wybod am ddamcaniaethau a brofwyd ynghylch sut mae pobl ifanc yn dysgu ac yn dysgu'n wahanol, a deall y damcaniaethau hyn; mae angen iddynt ddeall sut mae pobl ifanc yn datblygu'n ddeallusol ac yn emosiynol ac yn datblygu'n wahanol; ac mae angen iddynt ddeall strwythur gwybodaeth yn y pynciau/maes maent yn eu haddysgu fel y gallant ddadgyfuno cysyniadau allweddol a'u hail-greu mewn gwahanol ffyrdd er mwyn hwyluso'r broses ddysgu i bob plentyn a pherson ifanc yn eu gofal. Ar faterion allweddol mewn addysgu a dysgu, mae'r cyrsiau AGA gorau yn rhoi'r cyfle i athrawon dan hyfforddiant gymryd rhan mewn profiad ymarferol a gynlluniwyd yn ofalus ac, ar yr un pryd, ymwneud ag amrywiaeth eang o ffurfiau eraill ar dystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth o waith ymchwil, o ddamcaniaeth ac o ymarfer mewn mannau eraill. Mae sefydlu cyfleoedd ar gyfer y math hwn o ddysgu integredig yn arwain at oblygiadau pwysig ar gyfer ysgolion a SAUau a'r modd y maent yn cydweithio.

2.5 Gwybodaeth bersonol

Yn olaf, dylem gydnabod mai dysgwyr sy'n oedolion yw athrawon dan hyfforddiant. Yn hyn o beth, maent yn cyflwyno cyfoeth o wybodaeth a phrofiad personol a fydd yn chwarae rhan bwysig yn llywio eu dysgu.

Mae'r holl fathau gwahanol hyn o wybodaeth – deallusol, ymarferol, integredig a phersonol – yn agweddau hollbwysig ar ddysgu i addysgu. Yn y rhaglenni gorau, caiff pob un ohonynt eu deall a gwneir gwaith cynllunio gofalus ar eu cyfer mewn modd integredig a datblygedig. Drwy ymgysylltu'n bendant â nhw mewn perthynas â'u haddysgu eu hunain, gall athrawon dan hyfforddiant fel dysgwyr sy'n oedolion ddechrau cymryd rheolaeth o'u hymarfer eu hunain. Maent yn dysgu i feithrin eu dealltwriaeth eu hunain o ymarfer proffesiynol, myfyrio arno a mynegi eu dealltwriaeth eu hunain ohono, ac felly yn cymryd mwy a mwy o reolaeth ohono eu hunain; drwy wneud hynny, maent yn dechrau bod yn broffesiynol yn eu rhinwedd eu hunain.

3. Gweledigaeth o sut i gyflawni hynny – ysgolion a SAUau yn gweithio mewn partneriaeth

Fel y mae'r OECD (2012) ac eraill (BERA-RAS, 2014) yn egluro, mae'r enghreifftiau gorau o addysg athrawon yn rhyngwladol yn seiliedig ar sicrhau bod y ffynonellau gwahanol hyn o wybodaeth ar gael i athrawon dan hyfforddiant a'u bod yn gwneud defnydd llawn ohonynt. Mewn gwledydd megis yr Iseldiroedd neu'r Ffindir (Burn a Motton, 2015, *A review of 'research-informed clinical practice' in Initial Teacher Education)* cynigir rhaglenni i athrawon sy'n darparu profiad ymarferol trylwyr, systematig sydd wedyn yn cael ei gyfuno â chyfleoedd i herio a myfyrio trwy roi sylw deallusol i fathau eraill o wybodaeth broffesiynol sy'n sail i ymarfer addysgeg effeithiol: gwybodaeth sy'n deillio o ddamcaniaeth, ymchwil ac ymarfer rhagorol mewn mannau eraill. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae angen partneriaethau cryf, wedi'u rhyng-gysylltu'n glir rhwng ysgolion a SAUau sy'n canolbwyntio'n benodol ar yr hyn y mae athrawon newydd yn ei ddysgu (Burn a Mutton, 2015). Fel y nodir uchod, mae i hyn oblygiadau pwysig ar gyfer ysgolion a SAUau ynghyd â'r modd y maent yn cydweithio.

3.1 Goblygiadau i ysgolion

Os bydd ysgolion yn cael y dasg o ddarparu cyfleoedd dysgu systematig a strwythuredig mewn perthynas â phob un o feysydd craidd y cwricwlwm addysg i athrawon, yna mae'n amlwg y bydd angen iddynt gael yr hyfforddiant, y cyfleoedd datblygu proffesiynol a'r adnoddau i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Bydd angen i ysgol sy'n bartner arweiniol gael diwylliant lle mae AGA yn cael ei chydnabod fel un o'i chyfrifoldebau craidd, neu'n ysgol sy'n ymrwymedig i sefydlu diwylliant o'r fath. Bydd y diwylliant hwnnw yn cynnwys bod yn agored i ystyried a thrafod ei hymarfer addysgeg ac asesu ei hun yng ngoleuni amrywiaeth eang o fathau eraill o dystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth o ymchwil ac o ymarfer mewn mannau eraill.

3.2 Goblygiadau i SAUau

Mae goblygiadau i SAUau hefyd. Os mai prif dasgau SAUau yw rhoi mynediad i athrawon dan hyfforddiant i wybodaeth broffesiynol nad yw ar gael fel arfer mewn ysgolion – hynny yw, i dystiolaeth o ymchwil, i waith theori ac i wybodaeth am ymarfer addysgegol rhagorol ledled Cymru ac yn rhyngwladol – bydd angen i'w darpariaeth AGA o fewn y SAU fod â'r strwythurau staffio, strategaethau datblygu staff a'r math o ddiwylliant ysgolheigaidd a fydd yn sicrhau bod gan eu holl addysgwyr athrawon yr adnoddau i gyflawni hyn.

3.3 Goblygiadau o ran sut mae ysgolion a SAU yn cydweithio

Mae nifer o oblygiadau o ran sut mae ysgolion a SAU yn cydweithio. Mae angen i raglenni gael eu dylunio fel bod cyfleoedd strwythuredig ar gyfer dwyn ynghyd y gwahanol fathau o wybodaeth broffesiynol a ddarperir gan bob partner.

Gellir cefnogi'r mathau hyn o ymgysylltu mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, er enghraifft drwy benodiadau ar y cyd, drwy oruchwyliaeth ar y cyd, drwy ‘astudiaethau gwersi’ ffurfiol (yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2008) neu ‘gylchoedd dysgu’ (City et al, 2009), drwy aseiniadau ysgrifenedig neu drwy gyfnodolion myfyriol. Mewn amrywiaeth o ffyrdd, mae angen i raglenni ddarparu cyfleoedd strwythuredig i athrawon dan hyfforddiant ystyried mathau gwahanol o wybodaeth broffesiynol mewn perthynas â'u hymarfer datblygol eu hunain. Dylent gael eu herio a'u cwestiynu a dysgu nad oes atebion syml. Drwy'r broses hon y byddant yn gallu cyfleu eu dealltwriaeth ddatblygol eu hunain o addysgu a chymryd rheolaeth o'u hymarfer proffesiynol.

Mae hefyd oblygiadau i gynllunio ar y cyd. Dim ond os bydd SAUau ac Ysgolion Partner Arweiniol yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio darpariaeth y rhaglen yn ei chyfanrwydd y bydd yn cyflawni'r gydlyniaeth sydd ei hangen. Mae gwaith cydweithredol i gynllunio rhaglenni ac adolygu gweithdrefnau yn galw am berchenogaeth ar y cyd o raglenni.

Yn olaf, mae angen cyd-atebolrwydd. Er mwyn cyflawni addysg athrawon gwirioneddol gydweithredol, yna dylai'r ‘Bartneriaeth’ – y SAU ynghyd â'i Ysgolion Partner Arweiniol – gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am y rhaglen yn ei chyfanrwydd. Byddant yn cydweithio ac yn barod i gael eu dwyn i gyfrif gan eu myfyrwyr, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg a'r SAU sy'n dilysu eu rhaglenni.

Adran B: Strwythurau, prosesau a mewnbynnau rhaglenni AGA

Mae'r adran ar strwythurau a phrosesau rhaglenni yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r Bartneriaeth ac yn nodi'r strwythurau arwain a fydd yn ofynnol er mwyn i raglenni gael eu hachredu.

Mae'r adran ar fewnbwn y rhaglenni yn amlinellu'r hyn ddylai gael ei gynnwys mewn rhaglenni AGA yng Nghymru.

4. Strwythurau a phrosesau rhaglenni

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer arwain a rheoli rhaglenni AGA.

Dylai pob rhaglen AGA gael ei harwain gan 'Bartneriaeth', sef SAU yn cydweithio'n agos â nifer o 'Ysgolion Partner Arweiniol'. Dylai'r bartneriaeth gydweithredol hon fod yn amlwg yng ngweledigaeth, polisïau, strwythurau, datblygiad cwricwlwm ac ymarfer y Bartneriaeth AGA. Y Bartneriaeth AGA hon fydd yn cyflwyno'r rhaglen i gael ei hachredu. Hefyd, gall y Bartneriaeth AGA graidd hon o SAU ac Ysgolion Partner Arweiniol gydweithio â nifer o ysgolion eraill mewn partneriaeth ehangach. Drwy gyflwyno rhaglen(ni) i'w hachredu, mae'n ofynnol i Bartneriaeth ddisgrifio ei strwythur arwain a rheoli, gan gynnwys sut mae'r SAU, Ysgolion Partner Arweiniol ac Ysgolion Partner eraill o fewn y bartneriaeth ehangach yn cydweithio'n effeithiol.

Mae Partneriaethau AGA sy'n llwyddiannus yn y gweithgarwch caeedig, cydweithredol hwn o fudd i bawb dan sylw. Gall athrawon dan hyfforddiant fod yn hyderus bod yr holl bartneriaid yn cyfrannu mewn modd trefnus ac integredig at eu AGA. Caiff ysgolion a SAU gyfle i drafod syniadau newydd a manteisio ar eu profiad a'u harbenigedd mewn perthynas ag athrawon dan hyfforddiant. Caiff athrawon gyfleoedd parhaus i gyfleu a myfyrio ar eu hymarfer eu hunain a chymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol â chyd addysgwyr athrawon, athrawon dan hyfforddiant a gweithwyr proffesiynol yn y byd addysg drwy'r Bartneriaeth. Caiff staff SAU gyfleoedd newydd i ymgysylltu ag ysgolion ar lefel ddyfnach, fwy ystyrlon, gan wella eu dealltwriaeth o anghenion athrawon dan hyfforddiant mewn lleoliad amgylchedd dysgu cymhleth.

4.1 Arwain a rheoli'r Bartneriaeth

Dylai ysgolion a SAU fwynhau perthynas lle mae'r naill ochr yn parchu'r llall, gan arddangos eu gweledigaeth gyffredin ar gyfer AGA drwy sianelau cyfathrebu agored a'r rolau cydategol y cytunwyd arnynt i addysgu athrawon dan hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf o gytundebau effeithiol yn ffrwyth ymgynghori lle rhoddir ystyriaeth lawn i farn yr holl bartneriaid. Maent yn ddogfennau gweithio clir y gall pob partner eu defnyddio, a ategir gan ddogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach. Dylai dogfennau'r rhaglen ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, a staff SAUau ac ysgolion nodi priod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd arweinwyr y Bartneriaeth, SAUau, Ysgolion Partner Arweiniol ac Ysgolion Partner, fel y cytunwyd gan y Bartneriaeth. Cânt eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd gan arweinwyr y Bartneriaeth.

Er mwyn cael achrediad, bydd angen i bob Partneriaeth gael gweledigaeth strategol wedi'i diffinio'n glir ar gyfer AGA fel y trafodwyd o dan *Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*, a grŵp arwain partneriaeth a strwythur rheoli wedi'u diffinio'n glir. Dylai partneriaethau ddangos a chyfiawnhau:

Cydweithio: Arwain, rheoli, atebolrwydd a sicrwydd

- sut mae'r rhaglen AGA arfaethedig yn cyd-fynd â gwaith cynllunio strategol cyffredinol y SAU, gan gynnwys y modd y gall y cydberthnasau â rhaglenni eraill (AGA ac eraill) yn y SAU helpu i gyflawni'r rhaglen a sicrhau ei chynaliadwyedd a'r modd y bydd y SAU yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru gan gynnwys sicrhau strategaeth ymchwil y Bartneriaeth (gweler adran 4.1.1)
- tystiolaeth o gydweithio systematig a chynaliadwy rhwng eu holl Ysgolion Partner a'u SAU(au). Dylid cyflwyno model cydweithio wrth eu cyflwyno. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gweithio gyda sefydliad gwella ysgolion lleol. Anogir arloesedd.
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno ar y cyd neu gytundeb sy'n amlinellu'r modd y bydd y Bartneriaeth yn gweithio, gan gynnwys priod rolau a chyfrifoldebau arweinwyr y Bartneriaeth, Ysgolion Partner Arweiniol, Ysgolion Partner a'r SAU. Dylai fod cysylltiad clir rhwng cyfrifoldebau'r arweinwyr (y SAU a'r Ysgolion Partner Arweiniol), y SAUau a'r Ysgolion
- sut mae'r SAU a'r Ysgolion Partner Arweiniol yn rhannu atebolrwydd o raglenni
- sut y ceisir ac y defnyddir y gwaith cydweithredu â darparwyr AGA eraill yng Nghymru a thu hwnt i ddatblygu'r rhaglen a chodi safonau AGA ledled y wlad yn gyffredinol
- sut mae'r Bartneriaeth yn cynnal dulliau rheoli mewnol ac yn gwarchod cywirdeb cofnodion athrawon dan hyfforddiant
- sut y caiff ansawdd ei sicrhau gan gynnwys sicrhau ansawdd y broses o ddethol mentoriaid

Cyllid a chyllido

- y model ariannol ar gyfer cynnal y Bartneriaeth gyfan
- sut bydd Partneriaethau AGA yn penderfynu sut i gyllido pob rhaglen, a beth yw atebolrwydd pob partner o ran dyraniadau cyllideb a chynlluniau gwario

Datblygu, gwerthuso a hunanwerthuso rhaglenni

- sut mae'r SAU a'r Ysgolion Partner Arweiniol yn rhannu'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso rhaglenni
- sut mae hunanwerthuso yn cyfrannu at y broses barhaus o wella darpariaeth ac addysgwyr athrawon gan gynnwys casglu safbwyntiau athrawon dan hyfforddiant, ysgolion a phartneriaid eraill a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni gwella ansawdd a hunanwerthuso
- sut y gellir defnyddio data perfformiad ac asesu myfyrwyr i olrhain y broses o wella'r rhaglen

Datblygu staff

- sut y caiff anghenion datblygu staff eu nodi a sut y darperir prosesau dysgu a datblygu proffesiynol
- sut y caiff mentoriaid eu dethol, eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â'u rôl fentora

Recriwtio, dethol a chymwysterau mynediad

- strategaeth yr SAU a'r Ysgolion Partner Arweiniol a chynlluniau i sicrhau y caiff athrawon dan hyfforddiant o ansawdd uchel eu recriwtio, gan gefnogi profiad o ansawdd uchel i'r myfyrwyr, blaenoriaethau cenedlaethol a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

- sut y defnyddir data, yn cynnwys data ar gymwysterau athrawon dan hyfforddiant pan fyddant yn dechrau ar y rhaglen, i fonitro darpariaeth a gwella ansawdd ymgeiswyr
- sut y gellir defnyddio data recriwtio a dethol i nodi gwelliannau i'r broses gwneud cais a'r broses o ddatblygu proses o dderbyn myfyrwyr mwy amrywiol

Blaenoriaethau cenedlaethol

- sut mae'r rhaglen AGA arfaethedig yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg
- sut mae'r rhaglen AGA arfaethedig yn cyd-fynd â gweledigaeth a gwaith cynllunio strategol cyffredinol y SAUau ar gyfer cynyddu darpariaeth SAU cyfrwng Cymraeg a chyflawni nodau *Cymraeg 2050* (wedi'u cysylltu ag adran 4.6)
- sut mae'r rhaglen AGA arfaethedig yn ystyried blaenoriaethau recriwtio cenedlaethol a lleol presennol, gan gefnogi newydd-ddyfodiaid amrywiol o ansawdd uchel i'r proffesiwn addysgu dwyieithog yng Nghymru. Mae'n ofynnol i bartneriaethau ystyried canllawiau presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer recriwtio athrawon dan hyfforddiant. Dylai hyn gyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol o ran gweithredoedd a chymorth gan gynnwys:
    - *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg*
    - *Cynllun recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer addysg gychwynnol athrawon*
    - Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol perthnasol partneriaethau.

4.1.1 Rôl AGA mewn proffesiwn sy'n seiliedig ag ymchwil

Mae datblygu proffesiwn a gaiff ei lywio gan ymchwil ac sy'n seiliedig ar ymchwil yn elfen allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru i wella canlyniadau addysgol pob dysgwr. Bydd rhaglen AGA effeithiol sydd wedi'i chynllunio i gefnogi'r broses o ddatblygu'r math hwn o broffesiynoldeb yn cynnwys tair elfen benodol:

- I ddechrau, mae angen i athrawon dan hyfforddiant gael cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o ymchwil addysg fel corff gwybodaeth eang ac amrywiol. Drwy ddod yn hyddysg mewn gwaith ymchwil a gwybod sut mae ymchwil addysg yn gweithio, byddant mewn sefyllfa dda i ofyn cwestiynau beirniadol am ymchwil yn hytrach na bod yn unigolion goddefol sy'n ei derbyn.
- Mae hefyd angen i athrawon dan hyfforddiant gael profiad o ddefnyddio ymchwil a'r awgrymiadau ar gyfer ymarfer sy'n deillio ohoni fel un o'r ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael iddynt wrth iddynt feithrin eu gwybodaeth broffesiynol.
- Yn olaf, fel y mae'r Weledigaeth ar gyfer AGA yn esbonio (gweler adran 2), mae angen i bob athro dan hyfforddiant gael profiad o ofyn cwestiynau beirniadol am eu hymarfer datblygol, gan wthio ffiniau eu dealltwriaeth a'u cymhwysedd fel ymarferydd. Gall cael y cyfle i wneud eu gwaith ymchwil gweithredol eu hunain, ymchwil sy'n berthnasol i ymarfer, neu brosiectau ymholi proffesiynol fod yn strategaeth allweddol wrth feithrin eu gallu i ofyn cwestiynau o'r fath.

Dylai pob Partneriaeth gael strategaeth ymchwil glir a gefnogir sy'n diffinio dulliau ymchwil, ymholi proffesiynol a dulliau sy'n berthnasol i ymarfer, ac mae'n nodi ei datblygiad mewn lleoliadau amrywiol. Dylai gynnwys datganiad penodol o rôl ymchwil yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant i ddysgu ynghyd â'r ffyrdd y mae ysgolion ac SAUau y Bartneriaeth yn cefnogi ymchwil ac yn ymgysylltu ag ymchwil, yn unigol ac ar y cyd i ddatblygu eu darpariaeth, ac addysgu a dysgu yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

Mae ymgysylltu ag ymchwil yn cynnwys ymarfer sy'n defnyddio sail dystiolaeth, mae'n cynnwys cyfranogiad athrawon dan hyfforddiant mewn prosiectau ymchwil ac mae'n cydnabod dulliau sy'n seiliedig ar ymholi sy'n rhan o ymarfer ystafell ddosbarth. Dylai'r cyfleoedd hyn alluogi athrawon dan hyfforddiant i ymgysylltu ag ymchwil ac i ddysgu o ragoriaeth ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu ar y sail dystiolaeth ar gyfer y proffesiwn addysgu drwy eu gyrfaoedd.

Dylai Ysgolion Partner fod yn ymrwymedig i ymgysylltu ag ymchwil (gweler adran 4.3.2) a deall y modd y mae hyn yn cefnogi'r broses o ddatblygu dysgu athrawon dan hyfforddiant, dysgu proffesiynol addysgwyr athrawon, a'r effaith ar welliant ysgol gyfan. Dylai'r Bartneriaeth hefyd gyfleu'r modd y bydd yn ymgysylltu'n sylweddol ag AGA fel maes ymholi.

Dylai Partneriaethau ddangos eu dealltwriaeth o'r modd y mae Ysgolion Partner a SAUau yn defnyddio ac yn llunio ymchwil. Dylid galluogi addysgwyr athrawon i ymgysylltu ag ymchwil ac i fod yn weithgar o ran ymchwil fel sy'n briodol ar gyfer eu lleoliad. Dylai Partneriaethau hefyd ystyried y modd y caiff eu dysgu ei rannu'n lleol, yn rhanbarthol a thu hwnt, i ddatblygu eu darpariaeth eu hunain, y proffesiwn addysgu ac ymarfer addysgu athrawon ymhellach yng Nghymru. Felly, dylid sicrhau systemau dynamig a gweithredol ar gyfer casglu, rhannu a lledaenu gwybodaeth, dysgu ac ymchwil. Dylai Partneriaethau ystyried defnyddio'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol, y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol, egwyddorion Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a rhwydwaith Trafod Addysgeg, Meddwl am Ddysgu fel saernïaeth gefnogol at y diben hwn.

4.2 Meini prawf ar gyfer cynnwys ysgolion yn y Bartneriaeth
Dylai arweinwyr y Bartneriaeth sicrhau meini prawf clir a chadarn a gweithdrefnau tryloyw wedi'u dogfennu ar gyfer dethol a dad-ddethol yr holl Ysgolion Partner gan gynnwys Ysgolion Partner Arweiniol.

Wrth nodi Ysgolion Partner Arweiniol ac Ysgolion Partner, dim ond ysgolion a gydnabyddir yn y system am ddarpariaeth o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer athrawon dan hyfforddiant y dylai'r Bartneriaeth eu hystyried. Dylai Partneriaethau geisio gweithio gyda sefydliadau gwella ysgolion i nodi Ysgolion Partner Arweiniol ac Ysgolion Partner posibl a fyddai'n ysgolion effeithiol ar gyfer AGA. Dylai Partneriaethau unigol esbonio, gan gyfiawnhau, yr hyn y maent yn ei ystyried yn ysgolion ‘effeithiol’. Fel arfer, dylai Partneriaethau osgoi dethol ysgolion y mae Estyn wedi barnu eu bod wedi'u dosbarthu mewn categori olrhain statudol; ysgolion y mae Estyn wedi'u gosod mewn categori mesurau arbennig, neu gategori gwelliant sylweddol fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Addysg 2005 ac unrhyw gylchlythyrau cysylltiedig.

Er mwyn adlewyrchu lleoliadau amrywiol system addysg Cymru, mae'n hanfodol bod Partneriaethau AGA yn paratoi eu darpar athrawon ar gyfer cyfleoedd sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth gyfan o leoliadau ysgol a gynhelir a'u cymunedau. Yn gyffredinol, dylai pob Partneriaeth gynnwys ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, amrywiaeth o fathau, meintiau, enwadau, cyfryngau iaith a lleoliadau (lle y bo'n briodol). Dylai partneriaethau hefyd ystyried demograffeg a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol dysgwyr. Mae'n bwysig bod athrawon dan hyfforddiant yn cael cyfle i feithrin dealltwriaeth o'r heriau a wynebir gan ysgolion a leolir mewn cymunedau lle ceir lefelau uchel o amddifadedd, cyfrannau uchel o ddysgwyr ADY neu lle ceir niferoedd sylweddol o ddysgwyr y mae Cymraeg a/neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, neu ardaloedd lle ceir mwy o amrywiaeth ethnig a diwylliannol. Dylid cefnogi athrawon dan hyfforddiant i brofi a dysgu'r modd y mae ysgolion yn rheoli rhwystrau i ddysgu yn y cyd-destunau hyn, er mwyn diwallu

anghenion unigol dysgwyr. Gall hyn gynnwys arsylwi ar broffesiynau addysgol eraill a chydweithio â nhw, fel Cynorthwywyr Addysgu, Gweithwyr Ieuenctid, Swyddogion Ymgysylltu Teuluol a phroffesiynau cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â'r broses o gefnogi cyrhaeddiad a llesiant dysgwyr. Gyda'r gefnogaeth hon, dylai athrawon dan hyfforddiant hefyd gael cyfleoedd i ddeall y modd y mae ysgolion yn ymgysylltu â'u cymunedau i gefnogi dyheadau a chyflawniad dysgwyr.

Dylai Partneriaethau gynnig profiad i bob athro dan hyfforddiant mewn o leiaf ddwy ysgol gyferbyniol a gall gynnwys profiad mewn mwy o ysgolion a lleoliadau eraill drwy gyfleoedd gwella.

Mewn rhai ysgolion, er enghraifft ysgolion bach, gall fod yn ddefnyddiol i Bartneriaethau ddefnyddio modelau cydweithredol. Er mwyn rhoi'r cymorth mwyaf effeithiol i ddarpar athrawon mewn ysgolion bach, disgwylir i'r Bartneriaeth AGA gyflwyno opsiynau cydweithredol ar gyfer mentora a chefnogi'r myfyrwyr hynny. Dylai hyn gynnwys ffyrdd o roi cyfleoedd i'r myfyrwyr gydweithredu'n effeithiol ag eraill sydd mewn ysgolion o'r fath er mwyn helpu i reoli eu llwyth gwaith. Bydd hyn yn rhoi'r ystod o brofiadau sydd ei angen arnynt mewn rhaglen AGA effeithiol.

Gall lleoliadau addysgol eraill gynnig profiadau dysgu gwerthfawr i athrawon dan hyfforddiant a, lle y bo modd, caiff Partneriaethau AGA eu hannog i gynnwys y rhain yn eu Partneriaeth. Mewn lleoliadau o'r fath, gall profiadau myfyrwyr ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau o ran cydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill.

Dylai pob ysgol lle caiff athrawon dan hyfforddiant eu lleoli fod yn datblygu fel sefydliad sy'n dysgu neu'n gweithio i fod yn un, gan gynnig amgylchedd ar gyfer addysg gefnogol o ansawdd uchel i athrawon, lle mae effaith profiadau AGA a'i hegwyddorion yn cefnogi ac yn hyrwyddo gwelliant i'r ysgol gyfan. Ceir rhagor o wybodaeth a chanllawiau yn nogfen OECD a gyhoeddwyd yn 2016 *“What Makes a School a Learning Organisation? A Guide for Policy Makers, School Leadership and Teachers”,* ac ar Hwb.

4.3 Rolau a chyfrifoldebau mewn pob Ysgol Bartner

Dylai Partneriaeth AGA amlinellu'r modd y gall pob ysgol gyfrannu at y Bartneriaeth a darparu ei rhaglenni. Mae gan bob Ysgol Bartner rôl allweddol yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i addysgu, ymchwilio, myfyrio a gwerthuso; ni ddylid ystyried unrhyw ysgol fel lleoliad ar gyfer ‘ymarfer addysgu’ yn unig.

4.3.1 Dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin ag AGA

- Dylid meithrin dull ysgol gyfan o gefnogi athrawon dan hyfforddiant, dan arweiniad yr uwch-dîm arweinyddiaeth ac arweinwyr eraill o fewn yr ysgol, gan gynnwys mentoriaid.
- Dylai cymorth o fewn yr ysgol gynnwys mentora, goruchwyliaeth, adborth adeiladol ac asesu cynnydd athrawon dan hyfforddiant tuag at fodloni’r safonau yn ystod eu profiad yn yr ysgol.
- Dylai athrawon dan hyfforddiant gael cyfleoedd strwythuredig rheolaidd i fyfyrio ar eu profiad yn yr ysgol a'i ddadansoddi, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o fathau eraill o dystiolaeth. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth o theori, ymchwil a gwybodaeth am ymarfer mewn mannau eraill. Dylai hyn ymgorffori gweledigaeth y Bartneriaeth ar gyfer dysgu proffesiynol ac integreiddio dull gwahanol o ddysgu (gweler adran 2*Gweledigaeth o'r modd y mae athrawon dan* hyfforddiant yn dysgu). Dylai hyn gynnwys cyfraniad staff SAUau gan ddefnyddio arbenigedd pwnc yn briodol (21 4.5).

- Mae Ysgolion Partner yn rhagweithiol yn gweithio gyda'r Bartneriaeth AGA i gefnogi gweithgarwch ysgolheigaidd y SAU a chael budd ohono.

4.3.2 Staff yr ysgol a chyfrifoldebau athrawon dan hyfforddiant

- Mae cymorth mewn ysgolion yn golygu bod angen i bob ysgol yn y bartneriaeth ddynodi uwch-aelodau o staff profiadol i fod yn uwch-fentoriaid i arwain y broses o gynnwys yr ysgol gyfan mewn AGA a bod yn gyfrifol am hynny.
- Bydd gan Bartneriaethau strategaeth glir ar gyfer dethol, cefnogi a datblygu mentoriaid athrawon. Bydd gan uwch-fentoriaid ysgolion gyfrifoldeb i roi'r strategaeth hon ar waith.
- Dylai mentoriaid athrawon dan hyfforddiant fod yn ymarferwyr profiadol, sy'n cael eu cydnabod am eu hymarfer hynod effeithiol a chyson fel arbenigwyr cyfnod neu bwnc.
- Dylai staff mewn Ysgolion Partner nodi eu hanghenion dysgu proffesiynol fel addysgwyr athrawon a threfnu datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r SAU, neu rywle arall, fel sy'n briodol.
- Dylai addysgwyr athrawon mewn ysgolion, gan gynnwys uwch-fentoriaid a mentoriaid, sydd wedi'u dynodi'n benodol i'r Bartneriaeth, gael amser gwarchodedig i ymgymryd â'u cyfrifoldebau ynddi, gan gynnwys amser i gynllunio, cydweithio, rhoi adborth, llunio dogfennaeth a rheoli fel cymryd rhan yn y broses o lywodraethu'r Bartneriaeth, pan fo angen.
- Dylai staff ysgolion sy'n ymwneud ag AGA yn rheolaidd allu cael gafael ar raglenni dysgu a datblygu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n briodol ar gyfer y rôl sydd ganddynt yn y Bartneriaeth.
- Dylai ysgolion hwyluso a chefnogi eu haddysgwyr athrawon mewn SAUau yn ôl yr angen i sicrhau bod eu gwybodaeth am arweinyddiaeth ysgolion, cwricwlwm ac arferion dysgu ac addysgu mewn ysgolion a'u dealltwriaeth ohonynt yn gyfredol.
- Ym mhob cyd-destun profiad mewn ysgol, yn ogystal ag arsylwi ar ystod eang o addysgu, dylai athrawon dan hyfforddiant gynllunio ac addysgu gwersi neu gyfres o wersi a chael adborth adeiladol.
- Dylai athrawon dan hyfforddiant gael eu cyflwyno'n raddol i addysgu. Dylai hyn gynnwys cyfnodau arsylwi sydd wedi'u cynllunio'n ofalus a chyfleoedd addysgu mewn parau gydag athrawon dan hyfforddiant eraill a gydag athrawon effeithiol sefydledig. Dylid ond disgwyl i athrawon dan hyfforddiant ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ddosbarthiadau yn raddol. Yn ystod y cyfnod cyntaf o brofiad mewn ysgol, ni ddylent addysgu mwy na'r hyn sy'n cyfateb i 30% o'r amserlen gyfan ar gyfer athrawon a gyflogir yn amser llawn. Yn ystod y cyfnod profiad olaf mewn ysgol, ni ddylent addysgu mwy na 75% o'r amserlen. Yn eu cyflwyniadau, dylai Partneriaethau nodi eu canllawiau i'w Hysgolion Partner ar y materion hyn.
- Dylai athrawon dan hyfforddiant ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau ehangach sy'n ofynnol yn y proffesiwn, gan gynnwys ymgysylltu â rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.
- Dylai Ysgolion Partner sy'n cefnogi myfyrwyr fod yn ymrwymedig i ddatblygu ymarfer sydd wedi'i lywio gan dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth o waith ymchwil sy'n berthnasol i ymarfer. Mae angen i athrawon dan hyfforddiant gael cymorth gan ysgolion pan fyddant yn ymwneud â phrosiectau ymchwil ac yn casglu mathau eraill o dystiolaeth.
- Dylai Ysgolion Partner sy'n cefnogi myfyrwyr fod yn ymrwymedig i ddatblygu'r Gymraeg yn eu hysgol. Dylai'r weledigaeth ar gyfer y Gymraeg a chaffael, dysgu ac addysgu iaith fod yn glir i bawb. Mae angen i ysgolion ac addysgwyr athrawon mewn ysgolion gefnogi athrawon dan hyfforddiant wrth iddynt feithrin eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg (gweler adran 4.6).

- Dylai Ysgolion Partner roi rhagor o gymorth i athrawon dan hyfforddiant sydd ei angen, yn unol â phroses achos pryder gyhoeddedig y Bartneriaeth AGA.

4.3.3 Cyfleusterau ysgolion

- Fel aelodau o weithlu'r ysgol, bydd angen i athrawon dan hyfforddiant gael mynediad i fannau gwaith a thechnoleg briodol, gan gynnwys Hwb ac adnoddau digidol eraill, yn ddelfrydol ar lefel a ddarperir ar gyfer aelodau o staff amser llawn.
- Bydd angen i ysgolion sicrhau hefyd fod gofodau preifat ar gael ar gyfer mentora, gwaith grwpiau bach a seminarau.
- Dylai Partneriaethau wneud y defnydd gorau o gyfleusterau arbenigol mewn ysgolion, i roi lleoliadau realistig ar gyfer addysgu athrawon dan hyfforddiant.

4.4 Rolau a chyfrifoldebau Ysgolion Partner Arweiniol

Mae'n ofynnol i bob Partneriaeth AGA ddynodi nifer o 'Ysgolion Partner Arweiniol' a fydd yn cyfrannu'n llawn at arweinyddiaeth, atebolrwydd a darpariaeth ar y cyd y rhaglenni, gan gynnwys dyluniad a chynnwys y rhaglen. Mae gan Ysgolion Partner Arweiniol ran allweddol yn y Bartneriaeth. Maent yn gyfrifol, ynghyd â'r SAU(au) am ansawdd y rhaglenni, profiad a deilliannau'r myfyrwyr.

Dylid mynegi manylion rôl yr Ysgol Bartner Arweiniol yn y Bartneriaeth yn glir mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gaiff ei lunio gan yr Ysgolion Partner a'r SAU a byddant yn cytuno arno ar y cyd. Efallai y bydd Partneriaethau'n ystyried y modd y gall Ysgolion Partner Arweiniol gydweithredu i gynnig y profiadau dysgu mwyaf effeithiol i athrawon dan hyfforddiant. Er enghraifft, gellir grwpio ysgolion mewn 'cynghrair arwain' i wneud y mwyaf o arbenigedd staff neu gyfleusterau. Yn yr achos hwn, dylai Partneriaethau sicrhau nad yw'r trefniadau hyn yn golygu bod y myfyrwyr dan anfantais.

Mae angen i Ysgolion Partner Arweiniol sicrhau eu bod yn cyflawni'r gofynion ar gyfer pob Ysgol Bartner mewn Partneriaeth AGA (gweler adran 4.3). Fodd bynnag, mae eu rôl yn y Bartneriaeth yn amlwg, ac yn hanfodol i lwyddiant y weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru.

Dylai Ysgolion Partner Arweiniol:

- fod yn ysgolion effeithiol sy'n cael eu cydnabod am ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel
- gael diwylliant lle caiff AGA ei chydnabod fel un o'u cyfrifoldebau craidd. Dylent fod yn agored i ystyried a thrafod eu harferion addysgeg ac asesu eu hunain yng ngoleuni tystiolaeth ymchwil ac arferion mewn mannau eraill
- gael dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn strwythur y Bartneriaeth
- gael dealltwriaeth lwyr a chlir o'r ffaith eu bod yn gyfrifol, ar y cyd â'r SAU (a'r Ysgolion Partner Arweiniol eraill yn y Bartneriaeth) am y rhaglen(ni) AGA dynodedig)
- arwain a chefnogi Ysgolion Partner Arweiniol eraill ac Ysgolion Partner ym Mhartneriaeth AGA yn rheolaidd yn eu gwaith gydag athrawon dan hyfforddiant
- arwain a chefnogi Ysgolion Partner eraill yn rheolaidd ar eu taith i fod yn sefydliadau sy'n dysgu sy'n seiliedig ar ymchwil
- bod yn rhan o bob penderfyniad a phroses strategol ac yn atebol amdanynt ar y cyd. Fel grŵp dylent gael eu cynrychioli'n effeithio ar grwpiau arweinyddiaeth ym mhob rhan o'r strwythur llywodraethu
- chwarae rhan lawn ym mhrosesau sicrhau ansawdd, hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella pob rhaglen
- cyfrannu at y gwaith o ddylunio a datblygu rhaglenni

- chwarae rhan amlwg yn strategaeth a chynlluniau'r Bartneriaeth ar gyfer denu ymgeiswyr i'r proffesiwn a recriwtio athrawon dan hyfforddiant i raglenni gan gydweithio wrth gyfweld a dethol athrawon dan hyfforddiant
- cael yr adnoddau, y cyfarpar a'r cyfleusterau i gefnogi athrawon dan hyfforddiant
- cael uwch-aelodau hyfforddedig o staff i arwain ar AGA yn yr ysgol. Dylai'r athrawon hyn gydlynu profiadau dysgu a chymorth i fyfyrwyr, a monitro prosesau mentora
- rhoi profiadau dysgu strwythuredig ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a gaiff eu hintegreiddio'n effeithiol ac sy'n ategu elfennau eraill o'r rhaglen gyffredinol
- sicrhau bod pob aelod o staff sy'n rhan o'r broses o gyflwyno AGA yn cael dysgu proffesiynol parhaus i'w helpu yn eu rôl fel addysgwyr athrawon mewn ysgolion. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y ffordd mae athrawon dan hyfforddiant yn dysgu a dealltwriaeth o hyn; sgiliau mentora, gwybodaeth amdano a dealltwriaeth ohono; dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio ymchwil a mathau eraill o dystiolaeth i gefnogi athrawon dan hyfforddiant; a dealltwriaeth ymarferol o egwyddorion, strwythurau a chynnwys y rhaglen AGA
- rhoi cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff SAUau.

4.5 Rôl SAUau

4.5.1 Staff SAUau a datblygiad staff

- Dylai'r gymhareb staff addysgu i athrawon dan hyfforddiant a ariennir gan y Bartneriaeth fod yn un aelod o staff addysgu cyfwerth ag amser llawn i bob 15 o athrawon dan hyfforddiant cyfwerth ag amser llawn. Dylai'r rhain fod yn aelodau o staff sy'n arbenigo'n benodol mewn pwnc, cyfrwng iaith a chyfnod sydd wedi'u gwasgaru rhwng SAUau ac ysgolion fel sy'n briodol i gyflawni'r meini prawf penodedig, i gwmpasu darpariaeth, ac athrawon dan hyfforddiant. Dylai ceisiadau am achrediad amlinellu a chyfiawnhau sut mae staff wedi'u gwasgaru ar draws y Bartneriaeth.
- Lle mae staff amser llawn a rhan-amser yn y ddarpariaeth AGA, dylid rhoi disgrifiad mewn ceisiadau am achrediad o'r modd y caiff unrhyw heriau sy'n codi eu rheoli fel bod digon o staff ar gael i gefnogi myfyrwyr a nodi'r modd y mae'r SAU yn sicrhau y caiff ei staff rhan-amser eu hintegreiddio'n llwyr yn y rhaglen addysgu a'r adran/cyfadran addysg yn ehangach.
- Dylai staff addysgu feddu ar gymhwyster ar lefel uwch na lefel achredu'r cwrs y maent yn ei addysgu; os nad yw hyn yn wir, dylent fod yn gweithio tuag ato. Bydd yn ofynnol i SAU amlinellu eu cynlluniau i sicrhau bod yr holl staff hyn yn cyflawni cymhwyster perthnasol o fewn pum mlynedd i'r dyddiad penodi. Ar y cyfan, dylai pob addysgwr athrawon mewn SAU fod â phrofiad fel athrawon ysgol llwyddiannus.
- Bydd angen i Bartneriaethau nodi'r modd y byddant yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol eu haddysgwyr athrawon mewn SAU yn eu galluogi i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (gweler adran 4.6).
- Bydd yn ofynnol i bartneriaethau nodi bod gan bawb sy'n ymwneud ag AGA wybodaeth am addysgu a phrofiad ohono. Dylai addysgwyr athrawon mewn SAU sy'n rhan o brofiad mewn ysgol gymryd rhan reolaidd yn y gwaith o ddatblygu staff, gan gynnwys eu datblygiad yn yr ysgol, er mwyn cefnogi athrawon dan hyfforddiant, cynnal safonau uchel a chyfrannu at sail deg ar gyfer asesiadau. Yn ogystal â hyn, dylai staff SAU gymryd rhan weithgar mewn rhaglenni datblygu proffesiynol sy'n berthnasol i'w rôl o fewn AGA.
- Dylai'r SAU hwyluso'r dysgu proffesiynol a allai fod yn ofynnol gan staff yr ysgol i gefnogi athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol.
- Dylai SAUau sicrhau eu bod yn galluogi ymarfer ymchwil effeithiol fel y nodir yn y strategaeth ymchwil partneriaethau (gweler adran 4.1.1).

- Fel arfer, dylai addysgwyr athrawon mewn SAU fod yn ymwneud â gwaith ymchwil, gan gymhathu, cynnal, cyhoeddi a goruchwylio ymchwil yn rheolaidd. Bydd yn ofynnol i Bartneriaethau ddangos y modd y caiff staff addysgu SAU eu cefnogi i fod yn weithgar o ran ymchwil ac i ddangos sut mae eu hymchwil yn cyd-fynd â strategaeth ymchwil y Bartneriaeth AGA ac yn ei hategu (gweler adran 4.1.1).

4.5.2 Cyfrifoldebau SAUau o ran athrawon dan hyfforddiant

- Prif gyfrifoldeb SAU yw sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn profi rhaglen AGA o ansawdd uchel sy'n eu galluogi i fod yn athrawon newydd gymhwyso hyderus, cymwys ac ymroddgar fel y disgrifir yn adran 1 *Gweledigaeth o'r athrawon sydd eu hangen yng* Nghymru .
- Dylai SAU helpu athrawon dan hyfforddiant i lunio a chynnal portffolio proffesiynol, gan ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol , sef yr adnodd ar-lein a ddatblygwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg a Llywodraeth Cymru.
- Dylai SAUau gefnogi athrawon dan hyfforddiant i feithrin eu sgiliau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol ac o ran y Gymraeg (gweler 4.6).
- Rhaid i SAUau nodi meysydd i'w datblygu yng ngwybodaeth athrawon dan hyfforddiant am bwnc a'u cefnogi i feithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau.
- Dylai SAUau ddarparu cymorth ychwanegol i athrawon dan hyfforddiant sydd ei angen, yn unol â gweithdrefnau'r Bartneriaeth.

4.5.3 Cyfleusterau SAUau

Dylai cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu priodol fod ar gael i gefnogi addysgu a dysgu, a gwaith ymchwil. Fel arfer, dylai'r rhain gynnwys:

- darlithfeydd ac ystafelloedd adnoddau, fel labordai, mewn lleoliad priodol, o ansawdd, a'r nifer priodol ohonynt
- mynediad a lleoliadau ar gyfer pob rhaglen, sy'n briodol ar gyfer pob myfyriwr
- adnoddau ddysgu a chyfarpar priodol i bob maes cwricwlwm, cyfleusterau ac adnoddau llyfrgell, gan gynnwys adnoddau digidol, i ddarparu ar gyfer athrawon a staff
- technoleg a chyfleusterau digidol sy'n cefnogi proses o gydweithio'n effeithiol â phob partner.

4.5.4 Diogelu a lles athrawon dan hyfforddiant

Mae gan SAUau gyfrifoldeb i sicrhau lles eu holl fyfyrwyr ac mae ganddynt bolisïau a phrosesau clir ar gyfer amgylcheddau diogel, iach a chynhwysol sy'n helpu pob myfyriwr i ffynnu. Dylai'r SAU:

- roi cyngor, cymorth a chanllawiau, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela, meddygol a gyrfaoedd
- egluro cyfrifoldebau pawb, gan gynnwys staff mewn ysgolion, yn y Bartneriaeth AGA i ddiogelu myfyrwyr, a gwybod ble i'w cyfeirio yn y SAU i gael cymorth arbenigol
- sicrhau eglurder ynghylch diogelu a'r broses chwythu'r chwiban mewn SAUau ac mewn ysgolion.

4.6 Y Gymraeg

Mae *'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg* yn nodi ein huchelgais i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ynghyd ag annog ysgolion i symud ar hyd continwwm ieithyddol yn flaenoriaethau polisi allweddol sy'n galw am weithlu dwyieithog medrus i alluogi ein dysgwyr a chenedlaethau'r dyfodol i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Dylai partneriaethau fod yn glir ynghylch gweithgarwch yn eu rhaglenni sy'n cefnogi'r cynnydd gofynnol yn nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, ac er mwyn datblygu iaith pob athro dan hyfforddiant i addysgu Cymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Dylid cyflwyno hyn ar draws ysgolion Partner a'r SAUau er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn dysgu Cymraeg mewn modd dilys a chyd-destunol, a'u bod yn defnyddio'r Gymraeg yn eu hymarfer addysgu.

Caiff partneriaethau hefyd eu hannog i symud eu darpariaeth ar hyd continwwm ieithyddol a meithrin sgiliau eu haddysgwyr athrawon yn y Gymraeg mewn SAUau ac ysgolion Partner sy'n defnyddio *Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg*. Dylai *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg* (Llywodraeth Cymru, 2022) lywio a chefnogi Partneriaethau i ddatblygu eu dull gweithredu a chefnogi eu strategaeth recriwtio ehangach ar gyfer athrawon dan hyfforddiant (gweler adran 4.1).

4.6.1 Dull strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Partneriaethau AGA

Dylai pob Partneriaeth ddatblygu strategaeth glir ar gyfer y dull gweithredu y byddant yn ei ddefnyddio i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg gan gynnwys rhoi'r strategaeth ar waith a'i gwerthuso. Dylid defnyddio hyn i sicrhau dull systematig a chynaliadwy o:

- ddatblygu ymhellach eu darpariaeth ar gyfer myfyrwyr gan gynnwys defnyddio data ar gynnydd myfyrwyr ar hyd y *Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg* yn ystod rhaglenni er mwyn gwerthuso a datblygu rhaglenni ymhellach i gefnogi sgiliau ieithyddol pob athro dan hyfforddiant
- datblygu rhaglenni sy'n paratoi athrawon dan hyfforddiant i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gynyddu cyfran y rhaglenni a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg
- datblygu gweithlu dwyieithog o fewn adran AGA y SAU er mwyn gallu addysgu pob elfen a arweinir gan SAU o ddarpariaeth AGA drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler adran 4.5.1)
- datblygu gweithlu dwyieithog ar draws Ysgolion Partner i alluogi addysgwyr athrawon mewn ysgolion i gefnogi datblygiad ieithyddol pob athro dan hyfforddiant a'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddysgu ac addysgu yn holl leoliadau'r ysgolion Partner (gweler adran 4.3.2) fel sy'n briodol.

4.6.2 Darpariaeth gan y Bartneriaeth i wella sgiliau Cymraeg pob myfyriwr AGA

Mae'r safonau addysgu proffesiynol yn pennu disgwyliadau ar gyfer prosesau myfyrio a datblygu athrawon drwy gydol eu gyrfa, gan gynnwys ymrwymiad i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn raddol. Datblygwyd *Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg* mewn partneriaeth rhwng Partneriaethau AGA, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth roi'r rhaglenni AGA newydd ar waith am y tro cyntaf yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn cefnogi'r gwaith o roi'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ar waith ac mae wedi'i fapio ar gyfer yr holl weithgarwch dysgu proffesiynol Cymraeg er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg yn barhaus drwy gydol gyrfa athro.

Dylai partneriaethau AGA gael cynlluniau clir ar gyfer darpariaeth sy'n cynnig y cyfle i bob athro dan hyfforddiant feithrin ei sgiliau Cymraeg, ac amlinellu'n glir ganlyniadau disgwyliedig athrawon dan hyfforddiant yn unol â'r fframwaith. Dylai Partneriaethau AGA:

- asesu sgiliau Cymraeg pob athro dan hyfforddiant pan fydd yn cael ei dderbyn yn erbyn y Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg.
- rhoi o leiaf 35 awr o feithrin sgiliau Cymraeg bob blwyddyn fel rhan o'u rhaglen. Dylai Partneriaethau ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu a methodolegau ar draws yr holl amgylcheddau dysgu yn y Bartneriaeth ar gyfer meithrin sgiliau

myfyrwyr unigol yn ystod y rhaglen. Gall Partneriaethau hefyd fod yn awyddus i ystyried defnyddio darpariaeth genedlaethol fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel sy'n briodol.
- asesu sgiliau Cymraeg pob athro dan hyfforddiant wrth gwblhau eu rhaglen yn unol â fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg a chyflwyno tystiolaeth i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol bob blwyddyn at ddibenion cymedroli. Dylai'r asesiad hwn fwydo i'r proffiliau dechrau gyrfa (gweler adran 6.2) er mwyn galluogi pob Athro Newydd Gymhwyso (ANG) i lywio ei ddatblygiad parhaus wrth iddo ymgymryd â'i raglen sefydlu
- sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn gyfarwydd â'r Siarter Iaith, a meithrin sgiliau llythrennedd dysgwyr Cymraeg gan gynnwys ymgyfarwyddo â'r strategaethau i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac ymgorffori'r Gymraeg ym mhob rhan o'r cwricwlwm
- annog pob athro dan hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg (ni waeth p'un a yw ar gwrs sy'n ei baratoi i addysgu yn Gymraeg) i ymgymryd ag o leiaf un lleoliad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

4.6.3 Darpariaeth partneriaeth yn Gymraeg i'r rheini sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

Dylai rhaglenni AGA ar gyfer myfyrwyr sy'n bwriadu gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog gynnwys y gofynion sylfaenol canlynol:

- cymorth i fyfyrwyr feithrin y sgiliau a'r methodolegau addysgegol sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan eu paratoi i addysgu pynciau / meysydd ac ystodau oedran perthnasol
- cymorth i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu strategaethau i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac i ymgorffori'r Gymraeg ym mhob rhan o'r cwricwlwm
- cefnogi athrawon dan hyfforddiant, lle y bo angen, i fagu hyder yn eu sgiliau ieithyddol eu hunain
- Caiff pob lleoliad ysgol prif ffrwd ei gynnal mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Hefyd, fel yn adran 4.6.1, dylai Partneriaethau gynllunio a gweithredu'n barod ar gyfer y trydydd cylch achredu:

- bod pob adnodd a luniwyd gan Bartneriaeth a roddir i fyfyrwyr ar gael yn ddwyieithog
- dylai o leiaf 50% o'r holl ddarpariaeth a arweinir gan SAUau fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn sicrhau y caiff sgiliau addysgegol effeithiol eu meithrin, dylai partneriaethau gynnig trefniadau clir i sicrhau bod digon o gyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant feithrin eu sgiliau mewn grwpiau priodol. Efallai y bydd Partneriaethau yn awyddus i gydweithio ymysg ei gilydd neu â sefydliadau eraill i sicrhau darpariaeth effeithiol i niferoedd bach o athrawon dan hyfforddiant mewn disgyblaethau lleiafrifol ac i ddatblygu adnoddau ar y cyd i gefnogi athrawon dan hyfforddiant. Gallai Partneriaethau hefyd gydweithio â sefydliadau gwella ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau cenedlaethol i athrawon dan hyfforddiant mewn disgyblaethau lleiafrifol. Gallai'r rhain fod yn rhithwir a chael eu trefnu ar y cyd ar draws mwy nag un bartneriaeth.

5. Mewnbwn rhaglenni

Wrth gyflwyno eu rhaglenni i gael eu hachredu, bydd yn ofynnol i bartneriaethau ddarparu manylion y mewnbynnau rhaglenni canlynol:

- Model cydweithio ar gyfer y Bartneriaeth (fel yn adran 4)

- y weledigaeth ar gyfer dysgu athrawon dan hyfforddiant
- amcanion y cwrs
- cynllun y cwrs a'r meysydd astudio
- gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol
- Y Cwricwlwm i Gymru ac astudiaethau pwnc
- nodi a diwallu anghenion dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- cynnwys y rhaglen
- llesiant
- profiad mewn ysgol
- Deddf Cydraddoldeb 2010, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA)
- asesu athrawon dan hyfforddiant.

Caiff y rhain eu trafod yn fanylach isod.

5.1 Y weledigaeth ar gyfer dysgu athrawon dan hyfforddiant
Dylai rhaglenni AGA gael eu cefnogi gan weledigaeth wedi'i chyfleu'n glir ar gyfer dysgu athrawon dan hyfforddiant sy'n ymwneud â'r weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru (gweler Adran A: *Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru*) a gaiff ei llywio gan werthoedd, egwyddorion ac ymchwil. Dylai'r weledigaeth hon fod yn gyson weladwy o fewn holl elfennau rhaglenni, fel nodau, cynllun y cwrs, dethol cynnwys, strategaethau addysgu a dysgu, prosesau asesu ac effaith fwriadedig y rhaglen ar ddysgu ac addysgu athrawon dan hyfforddiant a dysgwyr mewn ysgolion. Dylai gael ei llunio ar y cyd gan yr Ysgolion Partner Arweiniol a'r SAU. Efallai y bydd y Bartneriaeth hefyd am gynnwys ei Hysgolion Partner yn y gwaith cydweithredol hwn lle y bo'n briodol.

5.2 Amcanion y cwrs
Gan ddefnyddio'r Weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru a gweledigaeth athrawon ar gyfer Cymru (gweler Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru), nod cyffredinol rhaglen AGA yw paratoi athrawon dan hyfforddiant i fod yn ymarferwyr cymwys, meddylgar, myfyriol ac arloesol sy'n ymrwymedig i gael eu llywio gan dystiolaeth (gan gynnwys tystiolaeth o waith ymchwil) a sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Mae angen i'r dyheadau hynny gael eu hadlewyrchu yn y modd y mae athrawon dan hyfforddiant a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi a'u hasesu yn deall y Safonau Proffesiynol. Mae angen i athrawon dan hyfforddiant fod yn barod i gyflawni'r Safonau Proffesiynol cyfoethog hyn, i ddechrau gweithio yn y proffesiwn addysgu ac i ymgymryd â'u taith broffesiynol drwy gydol eu gyrfa (gweler adran *Addysgu fel taith broffesiynol gydol gyrfa*)

Dylai athrawon dan hyfforddiant ddatblygu'r gwerthoedd, y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol fel llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, cynhwysiant cymdeithasol, mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, a thegwch, i sicrhau dyheadau a safonau uchel i bob dysgwr. Dylent ddeall pwysigrwydd cydweithio â chydweithwyr, cydweithwyr, proffesiynau cysylltiedig, rhieni a gofalwyr a bod yn ymrwymedig i feithrin y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwaith cydweithredol o'r fath. Dylent fod wedi ymroi i'w dysgu proffesiynol gydol oes eu hunain, gan gynnwys mynd ati i wneud gwaith ymchwil ym maes addysg.

5.3 Mathau o Gyrsiau
Er y rhagwelir bod y rhan fwyaf o'r rhaglenni a gyflwynir i'w hachredu naill ai yn rhaglenni TAR neu radd i israddedigion â SAC, gellir cyflwyno rhaglenni eraill o hyd a all fodloni'r

meini prawf achredu. Os bydd Partneriaethau yn dymuno cyflwyno mathau eraill o ddyfarniadau (er enghraifft, cyrsiau hirach, graddau cydanrhydedd) cânt eu hannog i drafod eu cynigion â Chyngor y Gweithlu Addysg ar y cyfle cynharaf er mwyn sicrhau bod ganddynt y potensial i gydymffurfio â'r Meini Prawf hyn a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Pan nad yw'r cynigion yn gynaliadwy yn fasnachol, dylai Partneriaethau drafod â Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf.

Mewn ymateb i ofynion newidiol gan ysgolion yng Nghymru, rhagwelir y gall rhai Partneriaethau fod yn awyddus i ddatblygu cyrsiau anhraddodiadol fel rhaglenni ‘blynyddoedd canol’ (er enghraifft addysgu dysgwyr yng ngrwpiau blwyddyn 5, 6, 7 ac 8). Ym mhob achos, mae angen cynllunio a dilysu rhaglenni fel dyfarniad ar wahân; bydd ganddynt ofynion derbyn penodol, cynnwys cwricwlwm a phatrymau o brofiad mewn ysgolion. Caiff partneriaethau eu hatgoffa nad yw'r ffaith bod Cyngor y Gweithlu Addysg yn achredu cwrs yn golygu o reidrwydd y bydd yn dyrannu niferoedd myfyrwyr iddo.

Mae Atodiad 4 yn trafod yr hyblygrwydd dros dro a ganiateir i ddatblygu darpariaeth beilot arbenigol ar gyfer cyfnod cynradd ag arbenigedd ADY.

5.4 Cynllun y cwrs a’r meysydd astudio

Dylai’r ceisiadau egluro sut mae'r hyn y mae athrawon dan hyfforddiant yn ei ddysgu o ysgolion a SAU yn cael ei integreiddio. Ynghyd ag amcanion y cwrs, dylai ceisiadau ar gyfer achredu nodi sut y dylid darparu gwahanol elfennau o’r rhaglen, megis wyneb yn wyneb, ar-lein neu drwy ddysgu cyfunol.

Dylai rhaglenni AGA bennu cyfres o gymwyseddau dechreuwyr lefel uchel ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, y gallant ychwanegu atynt drwy gydol eu gyrfaoedd. Dylai rhaglenni ganolbwyntio ar y canlynol:

- cefnogi myfyrwyr i ddysgu sut i ddysgu fel athro er mwyn cefnogi eu dysgu proffesiynol parhaus drwy gydol eu gyrfaoedd
- datblygiad personol
- meithrin gwydnwch a llesiant proffesiynol
- paratoi ar gyfer lleoliad cymhleth amgylchedd dysgu
- ymgysylltu a chydweithio'n weithredol â chydweithwyr proffesiynol a'r gymuned addysg ehangach.

Dylai rhaglenni:

- ddiffinio'r grwpiau blwyddyn y byddai athrawon dan hyfforddiant yn barod i'w haddysgu a chael eu cynllunio mewn ffordd fel bod pob athro dan hyfforddiant yn cael ei baratoi i addysgu pob dysgwr ar draws o leiaf ddau gam cynnydd olynol mewn ysgolion fel y disgrifir o dan y Cwricwlwm i Gymru
- paratoi athrawon dan hyfforddiant i ysgwyddo cyfrifoldeb am addysgu dosbarth, neu ddosbarthiadau, dros gyfnod parhaus a sylweddol
- sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn ymwybodol o'r llwybrau gyrfa, gan gynnwys arweinyddiaeth, mewn ysgolion a'r sector addysg ehangach
- cynllunio ac integreiddio astudiaethau proffesiynol ac addysgegol, profiad mewn ysgol ac astudiaethau pwnc yn ofalus. Dylid eu cydbwyso’n effeithiol yn y rhaglen a dylai eu cydberthynas fod yn eglur.

Ar raglenni blwyddyn safonol i raddedigion, dylai profiad mewn ysgol gyfrif am tua dwy ran o dair o'r rhaglen; ar raglenni tair blynedd, dylai astudiaethau pwnc a phrofiad mewn ysgol gyfrif am tua un rhan o dair o bob blwyddyn o raglenni, gan sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant yn cael o leiaf 60 diwrnod o hyfforddiant a arweinir gan SAU/ysgol bob

blwyddyn academaidd. Lle caiff rhaglenni eu dosbarthu'n rhai rhan-amser, dylai'r gofyniad ar gyfer profiad mewn ysgol ddilyn y rhaglenni amser llawn cyfatebol mewn modd pro-rata.

Mae'r gofynion mwy penodol ynghylch profiad mewn ysgol fel a ganlyn:

- 32 wythnos ar gyfer pob rhaglen pedair blynedd i israddedigion
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen dwy a thair blynedd i israddedigion
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen blwyddyn i raddedigion.

Dylai partneriaethau sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant yn cael profiad mewn o leiaf ddwy ysgol gyferbyniol. Dylai'r Bartneriaeth archwilio ysgolion cyferbyniol o amrywiaeth o briodweddau posibl sy'n gysylltiedig â'u Hysgolion Partner; fodd bynnag, dylai pob Ysgol Bartner fodloni'r meini prawf ar gyfer rhaglenni AGA (gweler adran 4.2, 4.3 a 4.4).

Gall lleoliadau profiad mewn ysgol fod mewn ysgol arbennig neu uned ADY. Yn yr achosion hyn, dylai Partneriaethau sicrhau nad oes mwy na 30% o'r profiad mewn ysgol yn digwydd y tu allan i amgylchedd dysgu prif ffrwd er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn barod i addysgu mewn amgylcheddau prif ffrwd ac ADY. Ceir rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth ADY arbenigol yn *Atodiad 4: Darpariaeth AGA arbenigol yn y* cyfnod cynradd ar gyfer ADY.

Dylid ystyried pob profiad arall (er enghraifft, addysg amgueddfa) fel ychwanegiadau i'r gofynion a restrir uchod a dylai fod y tu allan i nifer yr wythnosau a restrir.

5.5 Gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol

Mae manylion llawn y gofynion derbyn ar raglenni AGA wedi'u nodi yn Atodiad 2. Ceir rhagor o wybodaeth am ofynion derbyn ar gyfer ADY yn Atodiad 4: *Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY*.

Dylai'r broses o ddethol athrawon dan hyfforddiant gynnwys y SAU ac Ysgolion Partner. Dylai'r broses gynnwys cyfweliad unigol bob amser. Dylai Partneriaethau sicrhau y caiff y SAU ac Ysgolion Partner eu cynrychioli. Fodd bynnag, lle nad yw hyn yn bosibl bob amser, dylai fod prosesau cadarn ar waith a bod tystiolaeth ohonynt er mwyn sicrhau llais cryf i Ysgolion Partner o fewn y broses recriwtio a dethol. Dylai'r broses ystyried dawn bersonol ymgeisydd i addysgu, ynghyd â'i alluoedd academaidd. Hefyd, dylai Partneriaethau fodloni eu hunain bod gan ymgeiswyr y wybodaeth a'r sgiliau priodol mewn rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol.

Dylai Partneriaethau ddefnyddio eu data recriwtio, ceisiadau a dethol i wella ansawdd ac amrywiaeth y myfyrwyr a dderbynnir a sicrhau bod eu prosesau'n deg.

5.5.1 Iechyd a'r gallu corfforol i addysgu

Dylai Partneriaethau sicrhau bod pob ymgeisydd ar Raglenni AGA wedi bodloni gofynion y rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd), gan gadarnhau eu bod yn ddigon iach a bod ganddynt y gallu corfforol i ysgwyddo cyfrifoldebau athro.

Dylai Partneriaethau hefyd ystyried y rheoliadau perthnasol, a'u rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Efallai y bydd y Ddeddf hon yn golygu bod yn rhaid gwneud addasiadau rhesymol yn ôl y gofyn er mwyn i unigolyn allu dilyn cwrs AGA, hyd yn oed os bydd hyn yn arwain at driniaeth fwy ffafriol. Wrth ddethol unigolion i raglenni AGA, bydd angen i Bartneriaethau sicrhau nad yw gweithdrefnau a pholisïau dethol yn gwahaniaethu'n annheg yn erbyn ymgeiswyr sydd ag anableddau neu ADY. I'r perwyl hwnnw, dylid gofalu bod yr aelodau perthnasol o staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf er

mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r gofynion statudol sydd ar sefydliadau yn sgil y ddyletswydd i ddangos tegwch i bobl anabl.

5.6 Y Cwricwlwm i Gymru ac astudiaethau pwnc

5.6.1 Y pedwar diben, gofynion Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, ac egwyddorion a phrosesau allweddol

Dylai Partneriaethau sicrhau bod gan bob athro dan hyfforddiant ddealltwriaeth ddatblygedig o ddibenion, ethos a gofynion fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Dylai athrawon dan hyfforddiant fod yn barod i ymgysylltu â gwaith cynllunio'r cwricwlwm ac asesiadau ac addysgu'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer gwaith cynllunio'r cwricwlwm yng Nghymru Caiff pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru ei gefnogi i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion moesegol a gwybodus am Gymru a'r byd
- unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae gan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru chwe Maes Dysgu a Phrofiad ("Meysydd") ac mae angen i bob athro dan hyfforddiant fod yn gyfarwydd â'r Meysydd hyn. Mae datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau ar gyfer pob maes.

Cefnogir y cwricwlwm gan godau gorfodol:

- Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Cynnydd
- Cwricwlwm i Gymru: Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig
- Cwricwlwm i Gymru: y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Lle y bo'n briodol, dylai'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol, ynghyd â'r gofynion a nodir yn y canllawiau statudol gan gynnwys y sgiliau sy'n rhan hanfodol o'r pedwar diben a'r themâu trawsgwricwlaidd, gael eu hymgorffori wrth addysgu ar draws y cwricwlwm ynghyd â'r codau statudol.

Bydd athrawon unigol, gan gynnwys arbenigwyr pwnc mewn ysgolion uwchradd, yn defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y gwahanol Feysydd, a lle y bo'n briodol, yn y sgiliau trawsgwricwlaidd, y sgiliau hanfodol a'r themâu trawsgwricwlaidd wrth gynllunio'r cwricwlwm. Anogir athrawon i weithio'n greadigol ac yn gydweithredol ar draws ffiniau pwnc wrth gynllunio'r cwricwlwm ac asesiadau, gan ddefnyddio'r egwyddorion addysgegol, er mwyn osgoi cyfyngu eu haddysgu o fewn pynciau penodol. Dylai athrawon allu cefnogi plant a phobl ifanc i wneud cysylltiadau ar draws yr hyn maent yn ei ddysgu a dod yn ddysgwyr mwy effeithiol, gan ddwyn ynghyd agweddau gwahanol i archwilio pynciau pwysig fel dinasyddiaeth, menter a chynaliadwyedd er enghraifft.

Mae cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio'n dda, a gefnogir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Mae cynnydd yn ganolog i'r cwricwlwm, ac mae asesu yn ganolog i ddirnad y cynnydd hwn. Mae angen i bob athro dan hyfforddiant fod yn gyfarwydd ag egwyddorion cynnydd, a'r prosesau allweddol ar gyfer cefnogi cynnydd dysgwyr tuag at y pedwar diben yng Nghymru a'r modd y cânt eu hymgorffori mewn ymarfer ysgol, gan gynnwys:

- meithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

- symud ar hyd y continwwm 3 i 16
- cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr.

Mae angen i raglenni AGA sicrhau bod gwybodaeth pwnc a gwybodaeth addysgegol athrawon dan hyfforddiant ar y lefel sydd ei hangen i ymgysylltu â'r cwricwlwm, ei gynllunio a'i addysgu. Dylai partneriaethau sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn meithrin dealltwriaeth o egwyddorion cynnydd; yr egwyddorion cyffredinol a'r rhai o fewn pob maes dysgu a phrofiad. Dylai partneriaethau hefyd sicrhau bod gan athrawon dan hyfforddiant y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o egwyddorion allweddol asesu a'i ddiben cyffredinol yn y Cwricwlwm yng Nghymru i helpu pob dysgwr i wneud cynnydd, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg o ansawdd uchel â lefelau priodol o gefnogaeth a her.

5.6.2 Cynnwys astudiaethau pwnc

Dylai astudiaethau pwnc gynnwys:

- gwybodaeth am gynnwys sy'n briodol i'r grwpiau oedran / y camau cynnydd a / neu'r arbenigedd pwnc a ddewiswyd gan yr athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys cysyniadau allweddol, sylwedd a strwythur pob pwnc
- gwybodaeth addysgegol, sy'n briodol i'r grwpiau blwyddyn a chamau cynnydd a / neu arbenigedd pwnc.

Mae angen i geisiadau am achrediad nodi sut mae partneriaethau yn nodi meysydd y mae angen eu datblygu yng ngwybodaeth athrawon dan hyfforddiant am bwnc a nodi'r gefnogaeth benodol y maent yn ei darparu i fynd i'r afael â gwendidau o'r fath o dan adran 4.5.2. Dylai partneriaethau hefyd nodi sut mae hyn yn bwydo i'r gweithgarwch hunanwerthuso ac asesu a nodir o dan adran 4.1.

5.6.3 Astudiaethau pwnc mewn rhaglenni gwahanol

Dylai Partneriaethau AGA fod yn glir yn eu cyflwyniadau ar y grwpiau blwyddyn y mae rhaglenni unigol yn paratoi athrawon dan hyfforddiant i'w haddysgu. Dylent ystyried yn ofalus ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig y Cwricwlwm i Gymru, egwyddorion cynnydd a chanllawiau statudol sy'n amlinellu ystyriaethau'r cwricwlwm ar gyfer meysydd penodol, a'r disgrifyddion dysgu ac asesu o dan gontinwwm dysgu 3 i 16 oed (gan gynnwys dysgwyr y mae cyflymder eu cynnydd y tu hwnt i'r ystod ddisgwyliedig). Bydd hyn yn llywio'r broses o gynllunio'r rhaglen (gweler adran 5.4 ynghylch y gofyniad bod rhaglenni'n cwmpasu o leiaf ddau gam cynnydd olynol mewn ysgolion prif ffrwd) ac agweddau ar gynnwys rhaglenni (gweler adran 5.9).

Er enghraifft, rhaid i raglenni ar gyfer athrawon 'cynradd' (sy'n paratoi athrawon dan hyfforddiant i addysgu dysgwyr 4 i 11 oed fel arfer) gynnwys astudiaethau digonol ym mhob un o'r chwe Maes yn y cwricwlwm i'w galluogi i addysgu ac asesu dysgwyr ar draws y continwwm dysgu penodol. Byddai angen i hyn fod yn wahanol i raglenni AGA a gynlluniwyd ar gyfer athrawon dan hyfforddiant sydd am arbenigo mewn addysgu ar draws y rhaniad rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ar gyfer dysgwyr rhwng 8 a 14 oed. Mae angen arbenigedd pwnc / maes ar gyfer rhaglenni o'r fath. Felly, dylai athrawon dan hyfforddiant gael digon o wybodaeth gwricwlaidd ac addysgegol mewn disgyblaeth benodol i'w galluogi i addysgu ac asesu eu pwnc arbenigol / maes ar draws yr amrywiaeth lawn o oedran dysgwyr a gwmpesir gan y rhaglen ynghyd â'r gofynion cwricwlwm ehangach ar gyfer yr ystod oedran cynradd penodol a gwmpesir.

Dylai rhaglenni ysgol uwchradd i israddedigion (ar gyfer addysgu dysgwyr 11 i 16 oed) gynnig gwybodaeth ddigon manwl ac eang am y pwnc/pynciau, maes/meysydd y mae'r athro dan hyfforddiant yn bwriadu addysgu ynddo/ynddynt. Bydd y rhaglenni hyn hefyd yn

cynnwys cwricwlwm penodol i ddisgyblaeth ac astudiaethau o ran addysgeg ar gyfer pob maes/meysydd y mae'r athro dan hyfforddiant yn bwriadu ei addysgu.

Dylai rhaglenni uwchradd i raddedigion (ar gyfer addysgu dysgwyr 11 i 16 oed) baratoi athrawon dan hyfforddiant i addysgu eu pwnc/pynciau arbenigol ar draws yr ystod oedran llawn hon.

5.7 Nodi a diwallu anghenion dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
Er mwyn sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant gyrraedd safonau SAC a bod rhaglenni AGA yn cyflawni'r Gweledigaeth o'r athrawon sydd eu hangen yng Nghymru (gweler adran 1) dylai Partneriaethau sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant yn ymwybodol o ddysgwyr sydd ag ADY a'u bod yn barod i'w haddysgu a'u cefnogi. Mae'r Cod a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. Nod y broses o ddiwygio'r system ADY yw sicrhau y caiff anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc eu nodi'n gynnar ac yr eir i'r afael â nhw'n gyflym er mwyn iddynt gyflawni eu llawn botensial.

Dylai athrawon dan hyfforddiant ddeall egwyddorion ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person, y Cod a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, ei ddiben a'i ethos a'r cyfrifoldeb o addysgu ymarferwyr ac ysgolion gan gynnwys rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

5.8 Llesiant
Mae'n ofynnol i ysgolion yng Nghymru ystyried y *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol*. Disgwylir i bartneriaethau ddatblygu dulliau sy'n cyd-fynd â strategaethau a pholisïau Ysgolion Partner ac yn eu cefnogi i:

- helpu darpar athrawon i reoli eu llesiant personol a phroffesiynol eu hunain
- cyfrannu at lesiant y dysgwyr yn eu gofal
- sicrhau eu hymddygiad proffesiynol.

Ar gyfer yr athro dan hyfforddiant a'r dysgwr, mae'n bwysig y cânt eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i'w dysgu a'u helpu'n gorfforol, yn gymdeithasol ac o ran eu cyflwr meddwl. Mae'n hanfodol bod ganddynt ymdeimlad o ddiben, eu bod yn teimlo y gallant gyflawni nodau personol pwysig ac y gallant gymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu hysgol a'r gymuned ehangach. Dylai partneriaethau sicrhau bod eu hathrawon dan hyfforddiant yn cael cymorth i ddatblygu dulliau effeithiol o'u diogelu, a chydberthnasau personol ac o fewn yr ysgol sy'n gefnogol, gan gyfrannu at ysgolion cryf a chynhwysol, iechyd da, diogelwch personol ac amgylcheddau dysgu iach a chynhwysol.

Dylai rhaglenni AGA gynnwys cyfleoedd i ddeall rôl lles yn y broses o ddysgu'n effeithiol, gan gynnwys y gallu i nodi disgyblion sydd mewn perygl o brofi diffyg llesiant, a dylent gynnig cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant archwilio'r modelau mwyaf effeithiol a ddefnyddir gan ysgolion a'u partneriaid i sicrhau mwy o lesiant i bob dysgwr.

5.9 Cynnwys y rhaglen
Dylai rhaglenni fynd i'r afael â phynciau sy'n cwmpasu astudiaethau proffesiynol ac addysgegol craidd a fydd yn defnyddio amrywiaeth o ddamcaniaethau, ymchwil ac adnoddau deallusol eraill i feithrin gwybodaeth athrawon am y canlynol a'u dealltwriaeth ohonynt, ymysg pethau eraill:

- damcaniaethau ac ymchwil am addysgeg, datblygiad dynol a dysgu
- rôl ac egwyddorion asesu mewn addysgu a dysgu gan gynnwys sut i ddefnyddio asesiad yn effeithiol i gefnogi cynnydd dysgwyr ac adrodd arno

- dylanwadau cymhleth ffactorau personol, cymdeithasol a diwylliannol ar athrawon a dysgwyr
- natur amrywiol a newidiol y boblogaeth ysgolion yng Nghymru a pha mor berthnasol yw hyn i addysgu a dysgu
- deall a rheoli'r rhwystrau amrywiol sy'n wynebu dysgwyr mewn ysgolion sy'n effeithio ar gyrhaeddiad addysgol ac ar degwch. Dylai hyn gynnwys:
    - diwallu anghenion dysgwyr o gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol amrywiol
    - diwallu anghenion dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol
    - diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person, yn unol â'r cod ADY, i sicrhau bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau er mwyn nodi eu hanghenion a chymorth i ddiwallu'r anghenion hynny; hawliau dysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys eu hawl i gael llais mewn materion sy'n ymwneud â'u bywydau
- diogelu pob dysgwr
- egwyddorion ac ymarfer y broses o gynllunio'r cwricwlwm gan gynnwys dull a rhesymeg eu lleoliadau, gan ddefnyddio gwaith ymchwil o ddulliau gwahanol, er enghraifft gwaith cynllunio cwricwlwm disgyblaethol, rhyngddisgyblaethol
- gwaith cynllunio cwricwlwm i ddiwallu anghenion dysgwyr fel sy'n briodol ar gyfer arbenigedd y rhaglen (gweler adran 5.6.3)
- addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol gan gynnwys meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r modd y mae plant yn caffael a dysgu gwybodaeth am iaith a'r sgiliau sydd eu hangen i ddysgu sut i ddarllen ac i allu gwerthuso dulliau gweithredu gwahanol yn feirniadol
- gwybodaeth am addysgeg pwnc a gwybodaeth am gynnwys addysgegol
- cynllunio a defnyddio adnoddau, gan gynnwys adnoddau rhithwir, ar gyfer addysgu a dysgu i sbarduno, cefnogi a herio pob dysgwr
- y defnydd o dechnolegau digidol yn y gwaith o gefnogi dysgu cyfunol
- defnyddio data, tystiolaeth o ymchwil ac ymholiadau proffesiynol wrth ddatblygu ymarfer effeithiol
- rheoli a threfnu amgylcheddau dysgu
- cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys cwestiynu
- cydweithio mewn amgylcheddau dysgu â chydweithwyr
- sut y caiff ysgolion yng Nghymru eu trefnu a'u rheoli ar hyn o bryd a'r haenau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd o fewn y system gan gynnwys deall hanes addysg a pholisi addysg yng Nghymru
- deddfwriaeth bresennol, gan gynnwys dealltwriaeth o ofynion statudol y Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Tribiwnlys Addysg, y Cod ADY a gofynion o ran y Gymraeg.
- cyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol a chyfreithiol athrawon yng Nghymru gan gynnwys cofrestru ac ymgyfarwyddo â Chyngor y Gweithlu Addysg, cod ymddygiad y Cyngor ac addasrwydd i ymarfer dulliau yng Nghymru.

5.10 Profiad mewn ysgol

Dylid cynllunio profiad mewn ysgol, ynghyd â meysydd eraill o'r rhaglen ADY, ar y cyd rhwng y SAU a'r Ysgolion Partner Arweiniol. Mae'n cynnig cyfle hollbwysig i athrawon dan hyfforddiant feithrin eu sgiliau addysgu ymarferol a phrofi a datblygu eu damcaniaethau personol eu hunain am addysgu a dysgu. Felly, mae'n rhan ganolog o'r rhaglen addysg athrawon.

Cyn belled ag y bo'n ymarferol, dylai athrawon dan hyfforddiant addysgu dysgwyr mewn gwahanol grwpiau oedran, gan gynnwys y rheini sydd ag amrywiaeth o anghenion addysgol dysgu ychwanegol, ac ymgyfarwyddo ag ysgolion ar draws amrywiaeth o gyd-destunau economaidd-gymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol. Yn gryno, bydd y profiad mewn ysgol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yn ymgorffori'r canlynol:

- cyfleoedd addysgu gan gynnwys, ymhlith pethau eraill:
    - Arsylwi ac addysgu ochr yn ochr ag athrawon effeithiol.
    - Addysgu ar y cyd ag athrawon dan hyfforddiant eraill, lle bo'n briodol.
    - Addysgu fwyfwy ar eu pen eu hunain, yn enwedig yng nghyfnod olaf y profiad mewn ysgol. Mae addysgu ar y cyd yn ddull dilys a chyfoethog o ddysgu drwy gydol gyrfa athro, ond disgwylir gweld y gallu i addysgu'n annibynnol erbyn diwedd y rhaglen AGA.
- cyfleoedd mentora gan gynnwys, ymhlith pethau eraill:
    - Cael mentor dynodedig sy'n gwbl barod ac sy'n cael ei gefnogi yn ei rôl fel mentor myfyrwyr AGA.
    - Cael ei arsylwi a chael adborth rheolaidd.
    - Arsylwi ar athrawon profiadol.
    - Cynllunio ac addysgu ar y cyd.
- cyfleoedd myfyrio a datblygiad proffesiynol gan gynnwys, ymhlith pethau eraill:
    - Cael cyfleoedd strwythuredig i feithrin ei ddealltwriaeth o faterion ysgol gyfan a dulliau ysgolion o ddileu rhwystrau i ddysgu.
    - Cynnig cyfleoedd ffurfiol rheolaidd (er enghraifft, drwy 'gylchoedd dysgu' neu 'astudiaethau gwersi') i archwilio eu haddysgu eu hunain ac eraill yng ngoleuni amrywiaeth eang o fathau eraill o dystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth sy'n deillio o ddamcaniaeth, o ymchwil ac o ymarfer mewn mannau eraill.
    - Cofnodi eu myfyrdodau a'u 'damcaniaethau' eu hunain ynghylch ymarfer sy'n dod i'r amlwg mewn cofnodlyfr/portffolio fel y PDP.

5.11 Deddf Cydraddoldeb 2010, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA)

Dylai athrawon dan hyfforddiant fod yn gyfarwydd â Deddf Cydraddoldeb 2010, yn enwedig yr agweddau ohoni sy'n berthnasol i ysgolion. Mae hawliau plant a phobl ifanc wedi'u nodi yng nghyfraith Cymru o dan fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) sy'n seiliedig ar ymrwymiad i egwyddorion y CCUHP. Dylai athrawon dan hyfforddiant hefyd fod yn gyfarwydd â hawliau pobl anabl o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA). Yn hyn o beth, dylai rhaglenni AGA sicrhau bod pynciau'n cael eu haddysgu mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr, ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Dylid annog athrawon dan hyfforddiant i feddwl am y ffyrdd maent yn addysgu ac yn meithrin cydberthnasau â'u dysgwyr a chymunedau ehangach ysgolion i hwyluso amgylcheddau dysgu effeithiol sy'n wrth-hiliol ac nad yw'n wahaniaethol i bob dysgwr. Ceir rhagor o wybodaeth yn Hwb ac yn nogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gyhoeddwyd yn 2014 *Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: canllawiau i ysgolion.*

5.12 Asesu athrawon dan hyfforddiant

Nod y broses o asesu athrawon dan hyfforddiant yw sefydlu a ydynt yn datblygu fel athrawon newydd fel y bwriadwyd yn *Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* sy'n ategu pob agwedd ar y Meini Prawf. Caiff twf personol a phroffesiynol athrawon dan hyfforddiant drwy eu rhaglen AGA ei ddangos drwy gyflawni'r disgrifyddion ar gyfer SAC, sydd wedi'u nodi yn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Dylai'r broses o asesu athrawon dan hyfforddiant, a ddylai gydnabod yn glir yr holl fathau o ddysgu sy'n ategu AGA (gweler adran 2 *Gweledigaeth o'r modd y mae athrawon dan* hyfforddiant yn dysgu):

- gael ei chynnal drwy gydol y cwrs, gyda chyfnodau cynnydd wedi'u nodi'n glir
- cynnwys asesiad ffurfiannol a chrynodol
- defnyddio amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys arsylwi, trafod, aseiniadau ysgrifenedig a phrosiectau ymchwil weithredol
- cynnwys aseswyr/arholwyr o fewn y bartneriaeth ac aseswyr/arholwyr annibynnol, allanol a benodir gan y bartneriaeth
- darparu ar gyfer amrywiaeth o ddulliau, e.e., gwaith gwerthuso ar y cyd gan y myfyriwr a'r addysgwr athrawon, hunanwerthuso a gwerthuso cymheiriaid.

Dylai partneriaethau sicrhau bod gweithdrefnau cymedroli asesiadau mewnol ac allanol annibynnol ar waith i sicrhau dibynadwyedd a chywirdeb asesiadau. I'r perwyl hwnnw, bydd yr asesu yn seiliedig ar system o wiriadau ar sail tystiolaeth o fewn y bartneriaeth, mewn ymgynghoriad ag aseswyr allanol, er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant mewn gwahanol leoliadau yn cael eu hasesu mewn ffordd gyson a theg.

Dylai athrawon dan hyfforddiant gyrraedd safonau gofynnol yr elfen profiad mewn ysgol o'u Rhaglen AGA mewn dau gam cynnydd olynol er mwyn ennill eu cymhwyster (gweler adran 5.4). Dylai athrawon dan hyfforddiant sy'n methu gwneud hynny gael cynnig sesiynau i gyfoethogi eu haddysgu a mentora pellach cyn cael cynnig cyfle arall i gael profiad mewn ysgol. Dim ond dau gyfle y bydd athrawon dan hyfforddiant yn ei gael i lwyddo ym mhob profiad mewn ysgol.

Dylai partneriaethau gael gweithdrefnau clir, wedi'u dogfennu ar gyfer cefnogi myfyrwyr y mae eu cynnydd yn destun pryder a dylent sicrhau darpariaeth benodol i roi arweiniad gyrfaoedd i athrawon dan hyfforddiant nad ydynt yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn ystod y rhaglen.

5.12.1 Rôl proffil dechrau gyrfa yn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon dan hyfforddiant

Mae'r Proffil Dechrau Gyrfa yn adlewyrchu cyfuniad o asesiadau unigol gan addysgwyr athrawon y Bartneriaeth, asesiadau ar y cyd rhwng addysgwyr yr athrawon a'r athrawon dan hyfforddiant, a hunanasesiadau gan yr athrawon dan hyfforddiant. Gellir agor a diweddaru'r proffil drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol erbyn hyn, a chaiff Partneriaethau eu hannog i ddefnyddio hwn i gefnogi eu hathrawon dan hyfforddiant i'w paratoi i gael eu sefydlu.

Mae'r proffil dechrau gyrfa wedi'i gynllunio fel y gellir ei ddefnyddio i ategu neu ffurfio rhan o'r prosesau cofnodi, myfyrio a chynllunio sy'n codi'n naturiol yn ystod AGA. Bydd y proffil yn helpu athrawon dan hyfforddiant, wrth iddynt drafod gyda'u haddysgwyr athrawon, i ystyried eu profiad cyn ac yn ystod eu rhaglen AGA ffurfiol, a nodi'r prif bwyntiau mewn perthynas â'u haddysgu. Mae hefyd yn eu helpu i ddefnyddio'r dystiolaeth a gesglir mewn AGA i lywio eu camau nesaf, i feddwl ble y dylai ffocws datblygiad proffesiynol unigol yn y dyfodol, fel drwy eu cyfnod sefydlu, fod er mwyn:

- myfyrio ar gryfderau eu hymarfer ac adeiladu arnynt
- datblygu agweddau ar rôl yr athro y mae ganddo ddiddordeb arbennig ynddynt
- rhoi mwy o brofiad, neu feithrin arbenigedd, mewn meysydd nad ydynt wedi'u datblygu cymaint hyd yma.

5.12.2 Gwella drwy asesu

Mae'r broses o asesu athrawon dan hyfforddiant yn rhoi cyfle i Bartneriaethau nodi cryfderau a gwendidau yn eu rhaglenni gan gynnwys cysondeb asesiadau ymhob rhan o'r bartneriaeth. Mae angen i'r partneriaethau sicrhau bod yr aseswyr mewnol ac allanol yn cysylltu'r cryfderau a'r gwendidau y maent yn arsylwi arnynt gan athrawon dan hyfforddiant unigol a'r bartneriaeth â chryfderau a gwendidau posibl yn ansawdd eu rhaglen AGA. Yn y cyd-destun hwnnw, dylai Partneriaethau AGA sicrhau yr ymchwilir i faterion sy'n ymwneud ag ansawdd, a godir drwy asesiadau mewnol ac allanol, ac yr eir i'r afael â nhw i wella profiadau athrawon dan hyfforddiant ar y rhaglen. Dylai hyn fod yn rhan o waith hunanwerthuso ac ymchwil Partneriaeth AGA i'w darpariaeth ei hun yn unol ag adran 4.1.

Yn ogystal â diogelu safon SAC, dylai'r broses asesu gynnig tystiolaeth i helpu'r partneriaethau i werthuso eu perfformiad eu hunain ac i lunio cynlluniau i'w wella. Dylent hefyd ofyn i'r aseswyr allanol wneud argymhellion penodol ar gyfer gwella. Yna, gallant ddefnyddio'r dystiolaeth hon, ynghyd â thystiolaeth o ffynonellau eraill a all gynnwys inter alia, adroddiadau arolygu, adroddiadau monitro, data perfformiad, mentor ac adborth athrawon dan hyfforddiant i lywio eu cynlluniau gweithredu a'u targedau ar gyfer gwella.

Adran C: Canlyniadau’r rhaglenni

6. Canlyniadau'r rhaglenni – safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig

Fel y nodwyd yn y crynodeb gweithredol, dylai Partneriaethau AGA sicrhau bod ‘athrawon newydd wedi'u paratoi i fynd i'w hystafelloedd dosbarth, yn cael eu llywio gan ymchwil a mathau eraill o dystiolaeth, yn uchelgeisiol ac yn meddu ar y gallu i barhau i ddysgu ac yn barod i gefnogi pob dysgwr yng nghyd-destunau ysgol amrywiol Cymru’. Asesiad yn erbyn disgrifyddion lefel SAC y Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yw'r dull o ddangos bod y lefel hon o gymhwysedd wedi'i chyrraedd.

Dylid ystyried, deall ac asesu'r broses o gyflawni'r safonau ar gyfer AGA yng ngoleuni'r dull integredig ar gyfer AGA a nodir yn *Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*. **Felly, dylent adlewyrchu'n glir yr holl fathau gwahanol o ddysgu sy'n ategu ymarfer proffesiynol mewn perthynas â:** gwerthoedd proffesiynol, cwricwlwm, addysgeg, asesu, yr amgylchedd dysgu, y cyd-destun ehangach, myfyrdod proffesiynol, arweinyddiaeth ac ymrwymiad athrawon dan hyfforddiant i'w dysgu proffesiynol yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi'r dull integredig hwn, dylai Partneriaethau AGA gymryd gofal i osgoi arferion a all arwain at ymddygiadau sy'n gysylltiedig â pherfformioldeb e.e., gweld y safonau fel ymarfer ticio blwch neu orddibynnu ar ddefnyddio gweithgareddau sy'n rhoi popeth yn y fantol er enghraifft, arsylwadau gwersi untro.

Ar gyfer pawb yn y byd addysg, mae'r safonau yn rhoi ymdeimlad cryf o bwrpas a rennir ac maent yn pennu'r disgwyliad ar gyfer y continwwm o addysg athrawon a datblygiad proffesiynol (gweler adran: *Addysgu fel taith broffesiynol gydol gyrfa*).

Dylai canlyniadau rhaglen AGA gyd-fynd â'r safonau, ar y lefel sy'n gysylltiedig â dyfarnu SAC, sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth i ymgymryd â dyletswyddau athro mewn lleoliadau a gynhelir.

6.1 Cyrraedd y safonau ar gyfer statws athro cymwysedig

Mae'r pum Safon Broffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro – **addysgeg, cydweithredu, arloesi, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth**, gyda phwyslais cryf ar addysgeg. Mae pob safon wedi’i rhannu’n elfennau â disgrifyddion sy’n nodi enghreifftiau o sut gallai’r safonau fod yn berthnasol i waith athro, yn dibynnu ar ble mae’r athro hwnnw arni yn ei yrfa a’i rôl.

Mae’r is ddisgrifyddion addysgu yn disgrifio’r disgwyliadau y dylid eu bodloni ar gyfer sicrhau dyfarniad Statws Athro Cymwysedig a chwblhau’r cyfnod ymsefydlu statudol yn llwyddiannus, yn y drefn honno. Mae’r uwch ddisgrifyddion yn dangos enghreifftiau o ymarfer effeithiol iawn a pharhaus ac yn ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol drwy gydol gyrfa. Mae yna ddisgrifyddion hefyd ar gyfer rolau arweinyddiaeth ffurfiol. Felly, mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn nodi'n glir y gofynion ar gyfer derbyn unigolyn i'r proffesiwn ac yn pennu disgwyliadau o ran datblygiad drwy gydol ei yrfa broffesiynol.

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn annog meddwl, ystyriaeth a sgwrs am gymhlethdod prosesau addysgu. Mae hyn yn golygu y gellir ystyried y safonau mewn ffordd integredig a defnyddio tystiolaeth fwy cyfannol, wrth asesu athro dan

hyfforddiant yn erbyn y disgrifyddion perthnasol. Er enghraifft, gallai proses i arsylwi a thrafod gwers a gynlluniwyd ac a addysgir gan athro dan hyfforddiant gynnig cyfle i asesu:

- agweddau ar ymagwedd broffesiynol a gwerthoedd
- cydberthnasau rhwng athrawon a myfyrwyr
- gwybodaeth gynnwys am bwnc a gwybodaeth addysgegol am bwnc
- cynllunio, addysgu ac asesu strategaethau, gan gynnwys strategaethau addysgu cynhwysol
- prosesau rheoli amgylchedd dysgu.

Ar gyfer rhai o'r disgrifyddion hyn, bydd angen i'r aseswyr edrych ar ffynonellau tystiolaeth eraill e.e., gwaith ysgrifenedig (a'i gydberthynas ag ymarfer yn yr ystafell ddosbarth), cydweithio â chyfoedion, cyflwyniadau neu gyfraniadau at diwtorialau a chyfraniadau ehangach at ysgolion a'u cymunedau. **Ym mhob achos, dylai Partneriaethau sicrhau bod eu hymarfer asesu yn cynnwys yr holl ffurfiau ar ddysgu sy'n sail i ymarfer proffesiynol fel y nodir yn y Weledigaeth (Adran A: *Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*)**

Drwy gydol y Rhaglen AGA, bydd tystiolaeth a gesglir yn sail i benderfyniadau ynghylch bodloni'r disgrifyddion perthnasol o fewn y safonau. Yn hyn o beth, bydd angen i Bartneriaethau ystyried y modd maent yn monitro cynnydd athrawon dan hyfforddiant drwy adborth effeithiol, adolygiadau rheolaidd, mynd i'r afael ag anghenion unigol, a hyrwyddo annibyniaeth ar gyfer dysgu proffesiynol parhaus.

Wrth farnu cymhwysedd ar gyfer dyfarniad SAC, mae'n ofynnol i Bartneriaethau asesu athrawon dan hyfforddiant yn erbyn y disgrifyddion SAC. Dim ond i'r rheini sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer y disgrifyddion hyn y dyfernir y SAC. Rhaid i'r Bartneriaeth gytuno ar y polisïau a'r gweithdrefnau achos pryder a rhaid iddynt fod yn dryloyw i athrawon dan hyfforddiant ac addysgwyr athrawon ym mhob rhan o'r Bartneriaeth.

Mater o farn broffesiynol yw penderfynu a yw athro dan hyfforddiant yn cyrraedd y safonau ar gyfer SAC, gan ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael.

Cwestiynau i bartneriaethau AGA eu hystyried mewn perthynas â'r safonau ar gyfer SAC:

- A ydym yn rhoi adborth adeiladol i athrawon dan hyfforddiant ar eu cynnydd ar sail y disgrifyddion perthnasol?
- A yw'r cyfleoedd ar gyfer asesu'n cynnwys yr holl ddisgrifyddion perthnasol?
- A oes digon o dystiolaeth gan yr aseswyr i allu barnu'n gywir ynghylch gallu'r athrawon dan hyfforddiant i fodloni'r disgrifyddion perthnasol mewn amrywiaeth o gyd-destunau?
- A ydym yn asesu grwpiau perthnasol o ddisgrifyddion gyda'i gilydd fel na fydd ein dull gweithredu'n un digyswllt?
- Pa ddisgrifyddion perthnasol y gellir eu dangos yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn amgylchedd dysgu?
- Pa ddisgrifyddion perthnasol y gellir eu dangos drwy ddulliau eraill, gan gynnwys aseiniadau ysgrifenedig?
- A ydym yn monitro cynnydd athrawon dan hyfforddiant ac yn addasu'r Rhaglen AGA lle bo angen?
- A yw pob addysgwr athrawon wedi dilyn rhaglen ddatblygu broffesiynol berthnasol i'w alluogi i asesu'n gywir ac yn gyson ar sail y disgrifyddion perthnasol?

Yn Atodiad 3: *Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig – mwy o gyngor i bartneriaethau AGA wrth ddylunio rhaglenni* ceir rhagor o gyngor ar gyfer Partneriaethau AGA ynghylch y

math o ddarpariaeth sy'n cefnogi'r broses o gyflawni'r disgrifyddion SAC. Mae'r strwythur yn dilyn strwythur y model safonau yn fras, er, mewn rhai achosion, er mwyn bod yn eglur, mae rhai elfennau wedi cael eu hychwanegu; mewn achosion eraill lle mae yna orgyffwrdd, mae cyngor ar ddwy elfen wahanol wedi'i gyfuno.

6.2 Safonau ar gyfer sefydlu

Yn ystod y flwyddyn gyntaf (neu gyfnod sy'n gyfwerth ag amser llawn) o addysgu, bydd yr athro sydd newydd gymhwyso (ANG) yn ymgymryd â rhaglen sefydlu statudol sy'n cyfuno dysgu proffesiynol unigol ac yn cael ei fentora gydag asesiad yn erbyn disgrifyddion perthnasol yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Fel AGA, mae sefydlu yn gam penodol o ddatblygiad proffesiynol ac yn rhan o'r continwwm o addysg athrawon. Y rheoliadau sy'n llywodraethu sefydlu yw *Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015.* Mae'r rheoliadau a'r canllawiau i'w gweld ar Hwb.

Dylai'r Partneriaethau gydweithio'n agos â'r rheini sy'n gyfrifol am sefydlu er mwyn sicrhau bod pawb yr asesir eu bod yn cyrraedd y safonau SAC yn ymwybodol o'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i ddechrau ar eu cyfnod sefydlu. Dylai Partneriaethau AGA a'r rheini sy'n gyfrifol am sefydlu gynorthwyo a chefnogi athrawon dan hyfforddiant i wneud y newid hwn. I'r perwyl hwnnw, tua diwedd rhaglen AGA, caiff athrawon dan hyfforddiant gymorth i gwblhau Proffil Dechrau Gyrfa a diweddaru eu Pasbort Dysgu Proffesiynol. Mae'r Proffil Dechrau Gyrfa wedi'i gynllunio i roi ffocws i ANGau newydd ar gyfer ystyried sut maent yn datblygu fel athrawon, beth maent wedi'i gyflawni a beth mae angen i chi ganolbwyntio arno er mwyn parhau i ddatblygu fel ymarferydd effeithiol. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i Bartneriaethau AGA gael mewnbwn gan y rheini sy'n gyfrifol am sefydlu ar y cam hwn o raglen athrawon dan hyfforddiant. Mae hyn yn cynnig ffordd o fanteisio ar y meddwl myfyriol hwn ar ddechrau cyfnod sefydlu athro dan hyfforddiant a'i ystyried ynghyd â ffactorau eraill wrth gynllunio rhaglen sefydlu.

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn cysylltu AGA a'r broses sefydlu'n agos fel bod profiad proffesiynol yn gallu parhau a chynyddu. Dylai Partneriaethau AGA a'r rheini sy'n gyfrifol am sefydlu weithio gyda'r unigolyn i sicrhau bod y myfyrdod a'r drafodaeth sy'n rhan o gwblhau'r ffurflen mor werthfawr â'r Proffil Dechrau Gyrfa ei hun. Nod hyn yw helpu athrawon dan hyfforddiant ac ANGau i wneud cysylltiadau adeiladol rhwng camau dechreuol eu gyrfaoedd, ar eu taith o ddysgu gydol oes fel ymarferwyr myfyriol sy'n defnyddio ymchwil mewn ymarferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn unol â hynny, caiff ANGau eu galluogi i ddeall sut y gallant adeiladu ar gynnydd a thystiolaeth o'u SAC i gyflawni'r gofynion y dylai athrawon eu bodloni er mwyn cwblhau eu cyfnod sefydlu statudol yn llwyddiannus.

Rhestr termau

Achredu/Achrediad: Mae achredu proffesiynol Rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon yn cydnabod bod y rhaglen yn bodloni gofynion [meini prawf achredu] y corff sy'n derbyn unigolion i'r proffesiwn addysgu, h.y., Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru. Mae'n achrediad sydd ar wahân i ddilysiad academaidd y rhaglen gan gorff dyfarnu cymwysterau, h.y. y SAU/Prifysgol, ond mae'n ei ddilyn, h.y., y SAU/y Brifysgol.

Cydlynydd ADY: Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn berson a gaiff ei ddynodi, yn unol ag adran 60 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, gan ysgol a gynhelir (nad yw'n ysgol arbennig) neu Sefydliad Addysg Bellach i fod yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth dysgu ychwanegol i ddisgyblion neu fyfyrwyr ag ADY. Nodir dyletswyddau'r Cydlynydd ADY ym Mhennod 8 o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Cymru. Mae gan Gydlynwyr ADY rôl strategol ac ni ddisgwylir iddynt gymryd rhan uniongyrchol yn y broses bob dydd o gefnogi dysgwyr unigol ag ADY. Cyfrifoldeb yr athro dosbarth a chydweithwyr proffesiynol eraill yw hyn, er enghraifft Seicolegwyr Addysg ac Athrawon y Byddar.

Dysgu cyfunol: Mae dysgu cyfunol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu ar-lein. Gall dulliau dysgu cyfunol fod mewn amser real neu'n anghydamseredig neu'n gyfuniad difyr o'r ddau, gan ddefnyddio dulliau digidol a dulliau nad ydynt yn ddigidol. Mae sawl dull dysgu cyfunol effeithiol yn dibynnu ar natur ac oedran y dysgwr ynghyd â chyd-destun yr amgylchedd dysgu.

Ymchwil sy'n berthnasol i ymarfer: Mae ymchwil sy'n berthnasol i ymarfer yn canolbwyntio ar faterion a gaiff eu diffinio gan ymarferwyr fel rhai sy'n berthnasol i'w hymarfer ac mae'n cynnwys cydweithio rhwng pobl sy'n arbenigo'n bennaf mewn ymchwil, ymarfer neu'r ddau.

Cymwyseddau: Mae cymwyseddau athrawon yn cynnwys y wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r ymagwedd rhyng-gysylltiedig sy'n rhan o waith athrawon, gyda'u datblygiad cyfannol yn dechrau wrth iddynt ymgysylltu â'r rhaglen AGA.

Continwwm o addysg athrawon: Mae'r continwwm o addysg athrawon yn dynodi taith dysgu gydol oes athrawon, sy'n ymgorffori AGA, cyflwyniad i'r proffesiwn, y blynyddoedd cynnar a datblygiad proffesiynol parhaus, gyda phontio di-dor drwy gydol yr yrfa addysgu.

Cymhwysedd digidol: Gwybodaeth, sgiliau ac agweddau penodol yw cymhwysedd digidol er mwyn gallu defnyddio technolegau a systemau yn hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol.

Disgrifyddion: Rhan o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth sy'n disgrifio'r disgwyliadau y dylid eu bodloni er mwyn cael SAC a chwblhau'r cyfnod sefydlu statudol yn llwyddiannus.

Gweithwyr Proffesiynol ym Maes Addysg: Gweithwyr addysg proffesiynol neu gydweithwyr proffesiynol yw gweithwyr proffesiynol eraill mewn lleoliadau a gynhelir ac yn y gymuned ehangach, sy'n cefnogi cyrhaeddiad, dysgu ac addysgu a llesiant dysgwyr yr ysgol. Cynorthwywyr addysgu a chydlynwyr ADY fydd y rhain yn bennaf; fodd bynnag, yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol, gall hyn hefyd gynnwys eraill fel, Gweithwyr Ieuenctid, Seicolegwyr Addysg a Swyddogion Cyswllt Teuluol.

Addysg gychwynnol athrawon: Mae addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn cyfeirio at y rhaglen statudol ffurfiol gyntaf o baratoi ar gyfer y rôl o fod yn athro, y cam cyntaf ar y continwwm o addysg athrawon.

Amgylchedd dysgu: Mae'r amgylchedd dysgu yn allweddol er mwyn ysgogi'r cwricwlwm ac mae'n cyfeirio at leoliadau ffisegol a chyd-destunau amrywiol y mae athrawon yn eu trefnu a'u rheoli i hwyluso dysgu. Ystyr hyn fel arfer yw ystafell ddosbarth sydd wedi'i lleoli dan do mewn ysgol; fodd bynnag, gall hefyd gyfeirio at ystafelloedd dosbarth yn yr awyr agored neu gyd-destunau dilys a phwrpasol eraill ar gyfer dysgu.

Dysgwr: Plant a phobl ifanc yn yr ysgol.

Mentor: Mae mentor yn aelod o staff yr ysgol bartner sy'n arwain, yn cefnogi, yn goruchwylio ac yn rhoi adborth i athrawon dan hyfforddiant. Caiff y mentor ei addysgu i fentora ar gyfer addysg athrawon, a bydd yn ymarferydd profiadol naill ai fel arbenigwr cyfnod neu bwnc. Darperir amser gwarchodedig i fentoriaid ymgymryd â chyfrifoldebau a dyletswyddau eu rôl.

Partneriaeth: Mae model partneriaeth AGA yn cynrychioli cytundeb ffurfiol rhwng SAU ac Ysgolion Partner Arweiniol, a ategir gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, lle maent yn cytuno i gydweithio, fel partneriaid cyfartal at atebolrwydd ar y cyd, i gynllunio a hwyluso'r rhaglen AGA.

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person: Dull yw ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person lle caiff y person, dysgwr mewn ysgol at ddibenion y ddogfen hon, ei osod yng nghanol y gwasanaeth a'i drin fel person yn gyntaf. Mae'r ffocws ar y person a'r hyn y gall ei wneud, nid ar ei gyflwr na'i anabledd. Dylai cymorth ganolbwyntio ar gyflawni dyheadau'r personol a dylai fod wedi'i deilwra i'w anghenion a'i amgylchiadau unigryw.

Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth: Safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion sy'n canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro – addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesi a dysgu proffesiynol.

Yn weithgar o ran ymchwil: Ystyr bod 'yn weithgar o ran ymchwil' yw y gall addysgwyr athrawon ddangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth ddamcaniaethol a'r ddealltwriaeth o'r modd y mae ymchwil yn effeithio ar athrawon dan hyfforddiant, athrawon, addysgwyr athrawon neu'r system ehangach ac o fudd iddynt. Gall hyn amrywio o ategu ymarfer â sail dystiolaeth, cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil, arwain prosiectau ymchwil, mynd i gynadleddau a chyflwyno mewn cynadleddau, ac ymgymryd ag astudiaeth academaidd lefel uwch.

Sefydliadau Gwella Ysgolion: Sefydliadau neu bartneriaethau cydweithredol rhwng sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau gwella ysgolion. Gall Sefydliadau Gwella Ysgolion fod yn gonsortia rhanbarthol, yn grŵp o awdurdodau lleol neu'n un awdurdod lleol.

Ysgol arbennig: Mae ysgol yng Nghymru yn ysgol arbennig os yw wedi'i threfnu'n benodol i gynnig darpariaeth dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol.

Athro dan hyfforddiant: Mae athro dan hyfforddiant yn unigolyn sy'n dilyn rhaglen addysg gychwynnol athrawon.

Addysgwyr athrawon: Addysgwyr athrawon yw staff SAU ac ysgolion sy’n cyfrannu at y gwaith o hwyluso rhaglen AGA.

Gwerthoedd ac ymagweddau: Egwyddorion a ddylai symbylu pawb sy'n gweithio gyda dysgwyr. Rhan o fodel y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Cyfeiriadau

BERA: RSA (2014). *The role of research in teacher education: Reviewing the evidence. Interim report*. Llundain: BERA; https://www.thersa.org/discover/publications-and-articles/reports/the-role-of-research-in-teacher-education-reviewing-the-evidence/

Bishop, R. a Glynn, T. (2003). *Culture Counts: Changing Power Relationships in Education*. Zed Books, Llundain.

Burn, K. a Mutton, T. (2015). *A review of 'research-informed clinical practice' in Initial Teacher Education*. Oxford Review of Education.

Brookfield, S. (2001). *Understanding and Facilitating Adult Learning*. Gwasg Y Brifysgol Agored, Buckingham.

City, E. A., Elmore, R. F., Fiarman, S. E., a Teitel, L. (2009). *Instructional Rounds in Education – A network approach to improving teaching and learning (2nd edition)*. Harvard Education Press, Caergrawnt, MA.

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. (2008). *Improving practice and progression through lesson study: a handbook for headteachers, leading teachers and subject leaders*. Llundain: yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Dimmock, C. (2016). *Conceptualising the research-practice-professional development nexus: mobilising schools as 'research-engaged' professional learning communities.* Professional Development in Education.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol llwyddiannus – Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru* https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf

Cyngor y Gweithlu Addysg (2022). *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol;* https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga.html

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014). *Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: canllaw i ysgolion;* http://www.equalityhumanrights.com/publication/what-equality-law-means-you-education-provider-wales

Furlong, J. (2015). *Addysgu athrawon yfory;* https://gweddill.gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy

Kools, M. a Stoll, L. (2016). *What Makes a School a Learning Organisation? A Guide for Policy Makers, School Leadership and Teachers.* OECD; https://www.oecd.org/education/school/school-learning-organisation.pdf

OECD (2012). *Strong performers and successful reformers in education: Lessons from PISA for the United States*; http://www.oecd.org/pisa/keyfindings/pisa-2012-results-united-states.htm

OECD (2018). *Developing schools as learning organisations in Wales*; http://www.oecd.org/education/developing-schools-as-learning-organisations-in-wales9789264307193-en.htm

OECD (2018) *Datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yng Nghymru: llawlyfr prif bwyntiau;* https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/datblygu-ysgolion-fel-sefydliadau-syn-dysgu-yng-nghymru-bwyntiau.pdf

OECD (2019). *A Flying Start: Improving Initial Teacher Preparation Systems; https://www.oecd-ilibrary.org/education/a-flying-start_cf74e549-en*

OECD (2019). *ITE programme accreditation in Wales as a means to strengthen research-informed initial teacher education programmes;* http://www.oecdteacherready.org/promising-practice/ite-programme-accreditation-in

OECD (2021). *Teachers' professional learning study: Diagnostic report for Wales;* https://www.oecd-ilibrary.org/education/teachers-professional-learning-study-diagnostic-report-for-wales_caf912c7-en

Llywodraeth Cymru (2004). *Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004;* https://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/2733/contents/made/welsh

Llywodraeth Cymru (2012). *Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012;* https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/724/made/welsh

Llywodraeth Cymru (2015) *Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015;* https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/484/contents/made/welsh

Llywodraeth Cymru (2017). *Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion: Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru a'r cynnig i Gyngor y Gweithlu Addysg achredu addysg gychwynnol athrawon;* https://consultations.gov.wales/consultations/initial-teacher-education-accreditation

Llywodraeth Cymru (2017). *Addysg yng Nghymru: cenhadaeth ein cenedl 2017-2021;* https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl

Llywodraeth Cymru (2017). *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*; https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg

Llywodraeth Cymru (2021). *Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Cynnydd;* https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-y-cod-cynnydd

Llywodraeth Cymru (2021). *Cwricwlwm i Gymru: Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig;* https://llyw.cymru/cod-datganiadau-or-hyn-syn-bwysig

Llywodraeth Cymru (2021). *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol;* https://www.llyw.cymru/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-meddyliol

Llywodraeth Cymru (2021). *Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;* https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg

Llywodraeth Cymru (2021). *Cynllun recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer addysg gychwynnol athrawon;* *https://www.llyw.cymru/cynllun-recriwtio-pobl-ddu-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-ar-gyfer-addysg-gychwynnol-i-athrawon*

Llywodraeth Cymru (2021). *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;* https://www.llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol

Llywodraeth Cymru (2021). *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;* https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/4/contents/made/welsh

Llywodraeth Cymru (2021). *Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol: dogfen weledigaeth;* https://www.llyw.cymru/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol-dogfen-weledigaeth-html

Llywodraeth Cymru (2022). *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol;* https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol

Llywodraeth Cymru (2022). *Cwricwlwm i Gymru: y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;* https://llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-y-cod-addysg-cyd-berthynas-rhywioldeb

Llywodraeth Cymru (2022). *Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2022;* https://www.legislation.gov.uk/wsi/2022/1058/contents/made/welsh

Llywodraeth Cymru (2022). *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg;* https://www.llyw.cymru/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg

Atodiad 1: Cyfrifoldebau Statudol Estyn a Chyngor y Gweithlu Addysg mewn perthynas â Rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon

Cyngor y Gweithlu Addysg

O dan *Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) 2017,* mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg gyfrifoldeb statudol i:

- achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon (AGA)
- monitro cydymffurfiaeth rhaglenni achrededig â meini prawf Llywodraeth Cymru
- tynnu achrediad rhieni yn ôl.

Mae gwaith Cyngor y Gweithlu Addysg yn sicrhau bod pob rhaglen AGA yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Meini prawf cyn i'r rhaglen ddechrau a thrwy gydol ei chyfnod achredu. Mae hyn yn golygu bod sylfaen gadarn ar gyfer rhaglenni, a'u bod yn cael eu harwain, eu cynllunio, eu cyflwyno a'u datblygu ymhellach yn unol â'r Weledigaeth ar gyfer AGA fel yr amlinellir yn y Meini Prawf.

Estyn

O dan adran 18C o Ddeddf Addysgu 1994 (a fewnosodwyd gan baragraff 13 o Atodlen 14 i Ddeddf Addysg 2005), gall Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru arolygu ac adrodd ar:

- unrhyw hyfforddiant cychwynnol i athrawon, cynorthwywyr addysgu arbenigol, ar gyfer darparwyr; neu
- unrhyw hyfforddiant mewn swydd i athrawon neu gynorthwywyr o'r fath, a ddarperir gan ddarparwr hyfforddiant yng Nghymru.

Mae gwaith arolygu Estyn hefyd yn ystyried deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r arolygiaeth a'r darparwyr addysgol eu hunain gan gynnwys, er enghraifft, Deddf yr Iaith Gymraeg. Mae gwaith Estyn yn canolbwyntio ar ddysgwyr ac mae'n archwilio gwaith pob partneriaeth yn ymarferol. Mae Estyn yn arolygu effeithiolrwydd arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, ac mae'n gwerthuso effaith gwaith y bartneriaeth ar y canlyniadau a gyflawnir gan fyfyrwyr.

Ar ôl cael achrediad, mae gwaith monitro ac arolygu yn elfennau hanfodol ar gyfer sicrhau bod y rhaglenni'n parhau i fodloni'r Meini Prawf, yn cyflawni Gweledigaeth ar gyfer achredu a diwygio AGA yng Nghymru, a chyflawni lefelau uchel o ddarpariaeth o ansawdd. Mae'r Meini Prawf wedi'u hysgrifennu mewn ffordd lle mae cydymffurfiaeth ac ansawdd wedi'u cydblethu ac felly, er mai ffocws Cyngor y Gweithlu Addysg yw achredu a monitro, a bod arolygiadau Estyn yn wahanol, byddant yn ategu ac yn llywio ei gilydd.

Ceir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dogfennau canllaw ar wefannau Cyngor y Gweithlu Addysg ac Estyn.

Atodiad 2: Gofynion mynediad ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru

Bydd Partneriaethau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; felly, dylent werthuso a monitro effaith eu polisi derbyn yn rheolaidd.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y gofynion derbyn ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru i ITEducationAddysgGA@gov.wales.

Pan gânt eu derbyn, dylai pob darparwr cwrs AGA achrededig fod yn fodlon bod y canlynol yn wir ar gyfer darpar athrawon dan hyfforddiant:

1. bod ganddynt yr addasrwydd, y gallu a'r gwydnwch i fodloni canlyniadau SAC gofynnol erbyn diwedd ei raglen AGA
2. bod ganddynt y rhinweddau personol a deallusol priodol i ddod yn athrawon ardderchog
3. eu bod wedi cyflawni'r gofynion mynediad o ran cymwysterau gofynnol ar gyfer eu cyfnod astudio/pwnc, gan gynnwys:
    - safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd
    - safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith
4. ar gyfer rhaglenni AGA i astudio gan arbenigo mewn addysgu dysgwyr 4 i 11 oed, eu bod wedi cyrraedd safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn pwnc gwyddoniaeth
5. ar gyfer rhaglenni AGA ar gyfer y cyfnod uwchradd/yr ystod oedran uwchradd lawn (dysgwyr 12 i 16 oed) bod ganddynt radd sydd o leiaf 50% yn berthnasol i'r pwnc y mae'r myfyriwr yn bwriadu ei addysgu
6. ar gyfer rhaglenni astudio AGA ar gyfer addysg ar draws y rhaniad rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd (ar gyfer dysgwyr rhwng 8 a 14 oed), bod ganddynt Safon Uwch Gradd C o leiaf (neu gymhwyster cyfatebol), gyda pherthnasedd uniongyrchol i'r pwnc y mae'r myfyriwr yn bwriadu ei addysgu ar draws yr ystod lawn o oedran dysgwyr a gwmpesir gan y rhaglen a safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn pwnc gwyddoniaeth
7. eu bod wedi'u fetio i sicrhau nad oes ganddynt gefndir troseddol a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu bobl ifanc sy'n agored i niwed, neu fel ymarferydd addysg; a sicrhau nad yw athrawon dan hyfforddiant wedi'u gwahardd yn y gorffennol rhag addysgu na gweithio gyda dysgwyr (mae diogelu'r plant yn ofyniad cyfreithiol). Mae partneriaethau AGA yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir Uwch Wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriad priodol o'r rhestr waharddedig (ar gyfer plant, oedolion neu'r ddau) ar bawb a dderbynnir ar eu rhaglenni AGA. Ni all Llywodraeth Cymru ddweud wrth bartneriaethau a ddylent dderbyn unigolyn penodol
8. eu bod wedi bodloni gofynion y Safonau Iechyd Addysg, gan gadarnhau eu bod yn ddigon iach a bod ganddynt y gallu corfforol i ysgwyddo cyfrifoldebau athro. Dylai partneriaethau fod yn hyderus y gall hyfforddeion fodloni gofynion deddfwriaethol i gael yr iechyd neu'r gallu corfforol i ymgymryd â chyfrifoldebau athro. Bydd angen i bartneriaethau sicrhau nad yw gweithdrefnau a pholisïau dethol yn gwahaniaethu'n annheg yn erbyn ymgeiswyr sydd ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol. Nodir y gofynion statudol ar gyfer bod yn ddigon iach a meddu ar y gallu corfforol i addysgu yn Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) Cymru 2004
9. eu bod yn gallu darllen yn effeithiol a chyfathrebu'n glir a chywir drwy gyfrwng y Saesneg a/neu'r Gymraeg

10. eu bod yn cael eu hasesu wrth gael eu derbyn a thrwy gydol y rhaglen fel unigolion sydd â sgiliau swyddogaethol personol priodol mewn llythrennedd a rhifedd sy'n gymwys i gyd-destun addysgu dysgu proffesiynol
11. os ar gyrsiau ôl-radd AGA, byddant yn meddu ar radd gyntaf gan sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfatebol.

Gofynion mynediad: Cymwysterau

TGAU a Safon Uwch
O ran gofynion mynediad TGAU a Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol) y safon, nid y dystysgrif, sy'n cyfrif. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n addas fel arall ond, am ba reswm bynnag, nad ydynt wedi cyflawni TGAU Gradd C, er enghraifft, yn llwyddiannus, gyrraedd y safon sy'n ofynnol cyn cael eu derbyn. Pan fydd ymgeiswyr wedi cael cymwysterau heblaw TGAU neu Safon Uwch, bydd angen i Bartneriaethau fodloni eu hunain eu bod yn gymwysterau cyfatebol, achrededig, o ran cynnwys a gofynion. Ni chaniateir profion cywerthedd.

Statws gradd ar gyfer addysgu
Mae deddfwriaeth ar SAC yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cwblhau cwrs AGA yn llwyddiannus yng Nghymru gael cymhwyster gradd gyntaf yn y DU neu gymhwyster cyfatebol ac mae'r gofynion ar gyfer derbyn a dethol myfyrwyr yn safonau gofynnol. Mae'n bosibl y bydd gan raglenni AGA a achredir yn unigol feini prawf ychwanegol. Os bydd unigolion ar raglenni AGA i israddedigion yn llwyddiannus, byddant yn graddio ac yn cyrraedd y Safonau SAC ar yr un pryd. Mae angen i fyfyrwyr sydd am gael eu derbyn ar raglenni AGA i raddedigion gael cymwysterau lefel gradd (neu gymwysterau cyfatebol) cyn iddynt gael eu derbyn.

Pynciau gradd
Nid yw'r gyfraith yn nodi y dylai athrawon gael gradd mewn pwnc penodol i addysgu. Y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n nodi'r wybodaeth am bwnc sy'n ofynnol i gael SAC. Dylai pob athro dan hyfforddiant fodloni'r holl ddisgrifyddion SAC yn y safonau i gwblhau ei raglen AGA a chael dyfarniad SAC. Felly, mae angen i bartneriaethau ystyried ystod lawn cyrhaeddiad ymgeiswyr, nid dim ond teitl eu graddau. Mae angen iddynt benderfynu, yn yr amser a gynlluniwyd ar gyfer astudio, a fyddai'r ymgeiswyr yn gallu pontio unrhyw fwlch rhwng eu gwybodaeth am bwnc ar yr adeg y cânt eu derbyn, a'r wybodaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r disgrifyddion lefel is ar gyfer safon addysgeg ar gyfer yr ystod oedran a ddewiswyd ganddynt ac unrhyw bwnc/bynciau arbenigol.

Graddau Sylfaen
Dyfarniad ar lefel ganolradd yw'r Radd Sylfaen ac felly bydd angen i ymgeiswyr sydd â Gradd Sylfaen ddangos cyrhaeddiad ychwanegol o 60 o gredydau o leiaf ar Lefel 3 AU i fodloni'r gofyniad i gael eu derbyn ar gyfer AGA i raddedigion.

Cymwysterau galwedigaethol
Mae ystyriaethau tebyg yn gymwys i gymwysterau galwedigaethol ar lefel 4 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Bydd angen i'r rheini sydd ag NVQ4 gael credydau ychwanegol ar lefel 3 AU os nad oes ganddynt gymwysterau eraill ar lefel gradd.

Atodiad 3: Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig – mwy o gyngor i bartneriaethau AGA wrth ddylunio rhaglenni

Cyflwyniad

Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae'r safonau newydd hyn yn wahanol i unrhyw fodelau blaenorol a ddefnyddiwyd gan y proffesiwn mewn nifer o ffyrdd allweddol. Yn gyntaf, maent yn seiliedig ar gyfres o werthoedd ac ymagweddau y mae disgwyl i bob athro eu harddangos. Yn ail, maent yn ddatblygiadol, gyda fframwaith cyffredin yn cwmpasu holl yrfa athro o Statws Athro Cymwysedig (SAC) i ymarfer effeithiol iawn ac yn cynnwys arweinyddiaeth ffurfiol. Yn olaf, maent wedi'u strwythuro'n wahanol iawn.

Mae yna bum Safon Broffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sydd â phwyslais cryf ar addysgeg, sef:

- addysgeg (mireinio addysgu; datblygu dysgu; dylanwadu ar ddysgwyr)
- cydweithio
- dysgu proffesiynol
- arloesi
- arwain.

Caiff pob un o'r safonau hyn eu rhannu'n elfennau gwahanol sy'n galluogi'r safonau i gael eu harchwilio'n fanylach, er mwyn helpu â myfyrdod a dysgu proffesiynol. Mae i bob elfen ddisgrifydd sy'n rhoi enghraifft o sut i gymhwyso pob safon, gan gynnwys y dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn dyfarnu SAC. Wrth benderfynu ar gymhwysedd athrawon dan hyfforddiant, bydd partneriaethau, felly, yn gorfod eu hasesu yn erbyn y 32 disgrifydd hyn.

Nod yr atodiad hwn yw rhoi rhagor o gyngor i bartneriaethau ar y mathau o ddarpariaeth ac asesiad y mae angen iddynt eu datblygu os bydd athrawon dan hyfforddiant yn dangos yr holl ddisgrifyddion perthnasol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r Weledigaeth ar gyfer AGA a nodir yn Adran A. Mae strwythur y cyngor yn dilyn strwythur y model safonau yn fras, er, mewn rhai achosion, er mwyn bod yn eglur, mae rhai elfennau wedi cael eu hychwanegu; mewn achosion eraill lle mae yna orgyffwrdd, mae cyngor ar ddwy elfen wahanol wedi'i gyfuno.

Er bod y cyngor wedi'i nodi fel cyfres o elfennau gwahanol, mae'n bwysig pwysleisio bod angen deall a defnyddio'r rhain mewn ffordd gyfannol, yn union fel addysgu. Ni fwriedir i chi eu defnyddio fel rhestr wirio o gymwyseddau athrawon. Yn hytrach, dylid eu hystyried fel fframwaith integredig sy'n cwmpasu'r mathau o ddarpariaeth y bydd angen i bartneriaethau ei chynnig i'w hathrawon dan hyfforddiant er mwyn cyrraedd y safonau proffesiynol ar lefel SAC.

Yn olaf, deellir bod yr holl safonau yn cyfrannu'n uniongyrchol at bedwar diben y cwricwlwm; drwyddynt, disgwylir i fyfyrwyr ddatblygu a dangos eu hymrwymiad i'r gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol a amlinellir yn y model safonau.

Addysgeg

Mireinio addysgu... i sicrhau ymarfer effeithiol iawn a pharhaus
Yn y cyngor hwn ar gyfer partneriaethau, rhoddir sylw i addysgeg mewn tair adran ryng-gysylltiedig - mireinio addysgu, datblygu dysgu a dylanwadu ar ddysgwyr. Mae mireinio addysgu, yn benodol, yn edrych ar drefnu dysgwyr a meithrin arferion ac ymddygiadau dysgu sy'n cyflawni pedwar diben y cwricwlwm:

- creu dysgwyr uchelgeisiol a galluog
- unigolion iach a hyderus
- cyfranwyr mentrus a chreadigol
- dinasyddion egwyddorol a gwybodus.

Yn y cyd-destun hwnnw, dylai partneriaethau gynnwys y canlynol yn eu rhaglenni AGA:

- deall dysgu
- rheoli'r amgylchedd dysgu
- asesu
- cofnodi a chyflwyno adroddiadau
- gwahaniaethu
- cynnwys partneriaid yn y broses ddysgu.

Deall dysgu

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol gyfredol ynghyd â rhoi cipolwg ymarferol ar y modd y mae plant a phobl ifanc yn datblygu ac yn dysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc
- sut mae plant a phobl ifanc yn dysgu
- y ffactorau sy'n gallu hyrwyddo neu rwystro dysgu effeithiol, gan gynnwys effaith cefndir, hunaniaeth, gwerthoedd a chredoau dysgwyr
- yr angen i ddarparu ar gyfer datblygiad holistaidd y dysgwr
- canolrwydd llesiant i ddysgu effeithiol.

Rheoli'r amgylchedd dysgu

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i sefydlu amgylchedd dysgu ofalgar, o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- gwybod am bwysigrwydd cydberthynas dda rhwng yr athro a'r dysgwr wrth gyflawni pedwar diben y cwricwlwm a deall hynny
- deall a defnyddio strategaethau sy'n hyrwyddo ac yn cynnal ymddygiad cadarnhaol, yn unol â pholisi'r ysgol
- cael ymwybyddiaeth o lesiant dysgwyr; deall ac atal achosion o fwlio a phwysau negyddol gan gymheiriaid; a meddu ar wybodaeth am faterion a gweithdrefnau diogelu.

Asesu

Dylai partneriaethau ddatblygu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i ymgymryd ag amrywiaeth o ddibenion ac

ymarferion ar gyfer asesu'n effeithiol a'u defnyddio. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- deall, defnyddio a gwerthuso amrywiaeth o strategaethau asesu sy'n briodol i anghenion pob dysgwr a gofynion y cwricwlwm
- mynd ati mewn ffordd systematig a beirniadol i ystyried y dystiolaeth asesu er mwyn pwyso a mesur a mireinio'r addysgu a'r dysgu a llywio'r gwaith cynllunio
- cyfleu'r wybodaeth asesu yn briodol i ddysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a chyd-athrawon, gan gynnwys cynorthwywyr dysgu.

Cofnodi a chyflwyno adroddiadau

Dylai partneriaethau ddatblygu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i gofnodi, adrodd a defnyddio data asesu a data perfformiad arall yn effeithiol wrth addysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- cofnodi asesiadau a data perfformiad eraill yn gywir ac yn briodol yn unol â gweithdrefnau'r ysgol
- defnyddio data dosbarthiadau a data'r ysgol i nodi cryfderau dysgwyr a'u hanghenion dysgu yn y dyfodol
- cyfleu data asesu a data perfformiad eraill yn briodol i ddysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a chyd-athrawon, gan gynnwys cynorthwywyr dysgu.

Gwahaniaethu

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i wahaniaethu addysgu a dysgu mewn ffyrdd sy'n ystyried anghenion dysgwyr a chefnogi cynnydd pob dysgwr. Ymhlith elfennau eraill, dylid rhoi sylw i bwysigrwydd:

- parchu urddas pob dysgwr
- disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr
- pennu tasgau priodol a heriol i bob dysgwr
- deall a defnyddio data perfformiad dosbarthiadau a pherfformiad yr ysgol yn effeithiol wrth gynllunio ac wrth addysgu.

Cynnwys partneriaid yn y broses ddysgu

Dylai partneriaethau ddatblygu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol gyfredol ynghyd â rhoi cipolwg ymarferol ar bwysigrwydd cynnwys rhieni, gofalwyr, partneriaid eraill a chydweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid yn y broses o gefnogi dysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- deall gwerth cyfraniadau rhieni/gofalwyr ac eraill wrth gyflawni pedwar diben y cwricwlwm
- arsylwi, ymarfer a gwerthuso sgiliau sy'n briodol i gyfathrebu â rhieni/gofalwyr ac eraill.

Datblygu dysgu... drwy gymhwyso gwybodaeth am y pwnc a disgyblaeth yn effeithiol

Datblygu dysgu yw'r ail adran o dan addysgeg. Mae datblygu dysgu yn ymwneud â chymhwyso gwybodaeth am y pwnc a pharhau i ymgorffori'r pedwar diben ar gyfer dysgwyr. I'r perwyl hwnnw, dylai partneriaethau fynd i'r afael â'r canlynol gydag athrawon dan hyfforddiant: pedwar diben y cwricwlwm; gwybodaeth am bwnc mewn meysydd dysgu; profiadau dysgu cyfunol; cyd-destunau dilys, go iawn; cynnydd mewn dysgu a themâu trawsgwricwlaidd.

Pedwar diben dysgu

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm yn eu gwaith cynllunio, paratoi ac addysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- gwybodaeth am resymeg pedwar diben y cwricwlwm yng Nghymru a dealltwriaeth ohoni
- gwybodaeth am ofynion priodol y cwricwlwm a dealltwriaeth ohonynt a'r modd maent yn berthnasol i bedwar diben y cwricwlwm
- profiad o gynllunio a chyflwyno gwersi a chyfres o wersi wedi'u cynllunio i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm
- ymgyfarwyddo â gofynion y cwricwlwm mewn cyfnodau dysgu blaenorol a dilynol.

Manteisio ar ddisgyblaethau pynciau mewn meysydd dysgu

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i fanteisio ar ddisgyblaethau pwnc mewn meysydd dysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- datblygu gwybodaeth ddiogel am bob pwnc perthnasol
- gwybod am y ffurfiau mwyaf priodol ar wybodaeth addysgegol sy'n berthnasol i addysgu'r pwnc hwnnw a dealltwriaeth ohonynt
- defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ac addysgu ar gyfer cyflawni'r pedwar diben gan gynnwys dysgu trawsgwricwlaidd
- defnyddio dulliau effeithiol o ran cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd ar gyfer hwyluso'r gwaith o gyflawni pedwar diben y cwricwlwm.

Profiadau dysgu cyfunol

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i ddewis, defnyddio a ‘chyfuno’ amrywiaeth o ddulliau addysgu arloesol. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- amrywiaeth eang o ddulliau addysgegol
- amrywiaeth eang o adnoddau addysgu a dysgu
- amrywiaeth eang o amgylcheddau dysgu (gweithdai, awyr agored, theatr ac ati) a thechnolegau digidol.

Cyd-destunau dilys, go iawn

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i ddewis a defnyddio cyd-destunau bywyd go iawn dilys ar gyfer dysgu fel rhan naturiol o'r profiad dysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- cynllunio creadigol, llawn dychymyg i sicrhau cysylltiadau â'r byd go iawn ac y gellir ei gymhwyso i'r byd go iawn
- sicrhau bod y cysylltiadau hynny yn berthnasol ac yn ystyrlon i ddysgwyr.

Cynnydd mewn dysgu

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i gynllunio ar gyfer cynnydd dros amser. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- deall gofynion y cwricwlwm ar gyfer y cyfnod dysgu perthnasol yn ogystal â gofynion cyfnodau blaenorol a dilynol
- nodi a chynllunio cynnydd a'r camau nesaf ar gyfer y tymor byr/canolig
- gwerthuso sut mae'r dysgu yn galluogi dysgwyr i adeiladu ar wybodaeth flaenorol a symud tuag at ddeilliannau dysgu penodol
- defnyddio asesiadau a thystiolaeth arall o ysgolion ac amgylcheddau dysgu yn effeithiol wrth gynllunio ar gyfer rhagor o gynnydd.

Dysgu a chysylltiadau trawsgwricwlaidd

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i ddatblygu dysgu a chysylltiadau trawsgwricwlaidd, o fewn a rhwng meysydd dysgu a phrofiad. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- meithrin dealltwriaeth o egwyddorion dylunio'r cwricwlwm, gan gynnwys y cyd-destunau ar gyfer dysgu, a datblygu'r cwricwlwm yng Nghymru
- cynllunio, addysgu a gwerthuso profiadau dysgu trawsgwricwlaidd
- cynllunio i wneud cysylltiadau perthnasol, ystyrlon â meysydd dysgu a phrofiad eraill o fewn y cwricwlwm
- deall sut mae dysgu trawsgwricwlaidd yn digwydd mewn cyfnodau dysgu eraill.

Dylanwadu ar ddysgwyr - meithrin ymagweddau cadarnhaol mewn dysgwyr

Mae'r cyngor ar gyfer partneriaethau o ran athrawon dan hyfforddiant yn dylanwadu ar ddysgwyr a meithrin ymagweddau dysgu cadarnhaol yn cynnwys dull amlhaenog yn seiliedig ar gydberthynas barchus ac ymddiriedus rhwng yr athro dan hyfforddiant a'u dysgwyr: pennu heriau a disgwyliadau ar gyfer dysgwyr; gwrando ar ddysgwyr; cynnig cyfleoedd i ddysgwyr arwain y dysgu; annog ymdrechion a gwydnwch dysgwyr; myfyrio gyda dysgwyr a myfyrio gan ddysgwyr; codi ymwybyddiaeth dysgwyr o ddeilliannau dysgu a'r modd y maent yn effeithio ar eu hymdeimlad o lesiant. Yn hyn oll, gall yr athro dan hyfforddiant ymgysylltu â dysgwyr unigol, gyda grwpiau bach o ddysgwyr a/neu gyda'r dosbarth cyfan, fel y bo'n briodol.

Her a disgwyliadau

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i ysgogi ac ysbrydoli dysgwyr. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- pennu disgwyliadau uchel a thargedau clir ar gyfer dysgwyr
- defnyddio dulliau cyfathrebu (cwestiynu, esbonio, modelu), gan gynnwys amrywiol gyfryngau, i gymell a chynnal cynnydd pob dysgwr.

Gwrando ar ddysgwyr

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i wrando ar ddysgwyr (ar lefel unigol, grŵp neu ddosbarth cyfan). Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain
- defnyddio dulliau siarad effeithiol yn yr amgylchedd dysgu i ysgogi dysgwyr i gymryd rhan mewn dadleuon a gwneud penderfyniadau o ran beth a sut maent yn dysgu
- gwrando ar drafodaeth a hwyluso trafodaeth arnynt gan gynnwys y rheini sy'n benagored ac yn gymhleth, yn ddadleuol neu'n emosiynol

Dysgwyr yn arwain dysgu

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i annog dysgwyr i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- cyfleu diben y dysgu a rhoi esboniadau ar y lefel(au) b/priodol i bob dysgwr
- annog dysgwyr i asesu eu gwaith eu hunain dros amser a chydnabod gwelliant, ar sail tystiolaeth
- darparu canllawiau a chyfleoedd ar gyfer gwerthuso cyfoedion lle mae dysgwyr yn edrych ar waith ei gilydd ac yn ymateb iddo, gan feithrin eu sgiliau dadansoddi beirniadol.

Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i feithrin hunangymhelliant a hunangyfeiriad dysgwyr. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- trefnu a rheoli amgylcheddau dysgu effeithiol lle gall dysgwyr feithrin sgiliau o ran annibyniaeth a hunangyfeiriad
- cynnwys dysgwyr wrth bennu amcanion dysgu a chynllunio sut y cyflawnir hyn
- ysgogi dysgwyr i fod yn wydn ac i ystyried problemau fel heriau, nid rhwystrau, ac i ofyn am help pan fydd angen
- trafod â dysgwyr sut y cânt fwynhad, cyflawniad personol ac ymdeimlad o lesiant o'u cyflawniadau dysgu.

Myfyrio ar y broses ddysgu

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i annog dysgwyr i fyfyrio ac i werthuso ymddygiadau a rhagolygon ar gyfer dysgu. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- y modd y mae siarad am ddysgu yn helpu dysgwyr i fynd ati mewn ffordd ymwybodol i fonitro a myfyrio ar yr hyn maent yn ei ddysgu
- defnyddio ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu i helpu dysgwyr i werthuso a myfyrio ar eu cynnydd tuag at eu nodau dysgu.

Deilliannau dysgu a llesiant

Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r rhyng-gysylltiad rhwng dysgu a llesiant. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- deall pwysigrwydd llesiant dysgwyr ar gyfer dysgu effeithiol
- helpu dysgwyr i gydnabod a myfyrio ar y ffaith bod gwelliant yn eu dysgu yn gwella eu hymdeimlad o foddhad ac yn rhoi hyder iddynt yn eu gallu i gyflawni mwy.

Cydweithio

Mae cydweithio yn rhan hanfodol o waith athro. Dylai partneriaethau gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant gydweithio ag eraill ac arsylwi ar eraill sy'n cydweithio, lle y bo'n ymarferol. Yn ystod eu profiad yn yr ysgol, bydd y diwylliant o gydweithredu sydd mewn ysgol yn dylanwadu ar yr athrawon dan hyfforddiant. Dylai partneriaethau hefyd arwain drwy esiampl drwy fodelu dull cydweithredol o weithio. Dylai

rhaglenni alluogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu'n raddol yn y meysydd canlynol: ceisio cyngor a chymorth sy'n arwain at welliant i ddysgwyr; cydweithio â chydweithwyr mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach a chefnogi a datblygu eraill.

Ceisio cyngor a chymorth a galluogi gwelliant
Dylai partneriaethau annog, modelu a chynnig cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant fanteisio ar gyngor gan gydweithwyr (er enghraifft gweithwyr addysg proffesiynol eraill gan gynnwys athrawon, tiwtoriaid, cynorthwywyr dosbarth, cyfoedion) er budd datblygu cymorth addysgu ac ymddygiad effeithiol. Ymhlith elfennau eraill, gallai hyn gynnwys:

- addysgu fel rhan o dîm
- cynllunio ar y cyd
- mabwysiadu proses ymholi ar gyfer ymarfer proffesiynol a chymryd rhan mewn deialog broffesiynol
- dangos ymrwymiad proffesiynol i geisio, derbyn a gweithredu ar gyngor adeiladol wrth gyflawni her newydd
- gwerthuso ymarfer amgylchedd dysgu
- adolygu cynlluniau yn seiliedig ar ddata gwerthuso ac ymgynghori.

Gweithio gyda chydweithwyr mewn ysgolion a chefnogi a datblygu eraill
Dylai partneriaethau sefydlu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant feithrin a dangos y sgiliau ymarferol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i weithio'n effeithiol â chydweithwyr mewn ysgolion ac aelodau o'r gymuned ysgol ehangach. Ymhlith elfennau eraill, dylai hyn gynnwys:

- meithrin cydberthnasau o ansawdd uchel yn yr amgylchedd dysgu ac, wrth i gyfleoedd godi, yn y gymuned dysgu ehangach â chydweithwyr, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau partner er budd pob dysgwr
- cymryd rhan, lle'n bosibl, yn y prosesau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, cynllunio gwelliannau, ac adolygu a datblygu proffesiynol yn yr ysgol
- cymryd rhan weithredol yn y gwaith dysgu proffesiynol gydag eraill, gan ymgysylltu â gwaith myfyrio, dysgu ac ymarfer grŵp
- rhannu dysgu a datblygiad proffesiynol â chydweithwyr er mwyn gwella perfformiad a deilliannau pob dysgwr.

Dysgu proffesiynol

Mae'r cyngor i bartneriaid AGA mewn perthynas â dysgu proffesiynol athrawon dan hyfforddiant yn cwmpasu amrywiaeth o faterion gan gynnwys yr angen i athrawon dan hyfforddiant ddarllen yn ehangach a dangos dealltwriaeth cynyddol hyderus o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n berthnasol i'w hymarfer o ddydd i ddydd; deall rôl ymchwil gydweithredol ar raddfa fach (gan gynnwys ymchwil weithredu/ymholi gan ymarferwyr) o ran datblygu ymarfer; deall a defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol i gefnogi eu dysgu proffesiynol eu hunain; a dangos y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i ddatblygu eu sgiliau personol yn y defnydd o'r Gymraeg a sgiliau eu dysgwyr.

Deunydd darllen ehangach ac ymchwil
Dylai partneriaethau ddatblygu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant ddangos tystiolaeth o:

- ddarllen ac ymgysylltu'n feirniadol ag amrywiaeth eang o ddamcaniaethau a gwaith ymchwil perthnasol, gan gynnwys gwaith ymchwil am ddysgu, addysgeg, asesiad a datblygiad plant a'r glasoed

- gwybod sut i werthuso ymchwil addysgol yn feirniadol a dechrau gwneud dyfarniadau ynghylch ansawdd y gwaith ymchwil maent yn ei ddarllen
- gwybod sut i gael gafael ar ganfyddiadau perthnasol o waith ymchwil addysgol a'u cymhwyso, a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i herio a gwella eu hymarfer
- deall rôl ymchwil gydweithredol ar raddfa fach, gan gynnwys ymchwil weithredu/ymholi gan ymarferwyr, o ran datblygu ymarfer.

Dysgu proffesiynol parhaus
Dylai partneriaethau ei gwneud yn ofynnol i athrawon dan hyfforddiant ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fel mater o arfer a'u cefnogi i wneud hynny. Dylid defnyddio'r pasbort, ymhlith pethau eraill, er mwyn:

- cofnodi a myfyrio ar brofiadau proffesiynol a nodi'r camau nesaf ar gyfer datblygu
- cofnodi a myfyrio ar adborth gan eraill (tiwtoriaid, mentoriaid, cymheiriaid)
- cysylltu theori ag ymarfer
- cefnogi a chofnodi'r broses awtonomaidd o feithrin sgiliau personol gan gynnwys sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- dangos ymrwymiad i ddysgu proffesiynol parhaus.

Sgiliau yn y Gymraeg
Dylai partneriaethau ddatblygu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant gaffael a dangos y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen er mwyn:

- meithrin eu sgiliau personol eu hunain yn y defnydd o'r Gymraeg yn raddol
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
- hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
- ehangu sgiliau a chymhwysedd dysgwyr yn y Gymraeg
- pwysleisio pwysigrwydd canolog y Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Arloesi

Datblygu technegau newydd a chynnig arbenigedd
Dylai partneriaethau ddatblygu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant ddangos eu bod yn gallu:

- defnyddio'r hyn a ddysgwyd o ddarllen ac ymchwilio, gan gynnwys eu gwaith ymchwil eu hunain, i herio a llywio ymarfer
- datblygu, cymhwyso a gwerthuso strategaethau addysgu a dysgu newydd, gan fod yn greadigol a chymryd risgiau lle y bo'n briodol
- rhannu arferion da â chydweithwyr a chyd-fyfyrwyr.

Gwerthuso effaith newidiadau mewn ymarfer
Dylai partneriaethau ddatblygu mathau o ddarpariaeth a gweithdrefnau asesu i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant ddangos eu bod yn gallu:

- casglu data a deall gwerth amrywiaeth o ddata a thystiolaeth arall wrth werthuso effaith newidiadau mewn ymarfer
- deall sut i ddehongli data a thystiolaeth arall o ddeilliannau dysgu
- meddwl yn feirniadol, dadansoddi a datrys problemau fel unigolyn ac fel aelod o dîm
- ymgysylltu â mentoriaid, cydweithwyr addysgu, tiwtoriaid a chymheiriaid er mwyn cael cymorth a chyngor i werthuso a myfyrio ar y cyd ar ddysgu ac addysgu.

Arweinyddiaeth

Dylai partneriaethau anelu at feithrin sgiliau arwain athrawon dan hyfforddiant ac agweddau cadarnhaol tuag at arweinyddiaeth. Dylent gynnig cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ymgymryd â rolau arwain, fel sy'n briodol, ac arsylwi ar eraill yn arwain. Mae'r maes arweinyddiaeth, yng nghyd-destun AGA, yn ymwneud ag ymwybyddiaeth athrawon dan hyfforddiant o'u cyfrifoldeb proffesiynol o ran bod yn drefnus a rheoli'r amgylchedd dysgu er budd pob dysgwr; cyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol athrawon; arwain dysgu drwy brofiadau ar y cyd mewn ysgolion ac mewn cyd-destunau eraill ac arsylwi ar natur cyfrifoldebau o fewn timau a rhyngddynt a dealltwriaeth o hyn.

Cymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain
Dylai partneriaethau annog a disgwyl i athrawon dan hyfforddiant ddeall pwysigrwydd bod yn drefnus yn broffesiynol a rheoli'r amgylchedd dysgu er budd pob dysgwr. Dylent gael cyfleoedd i ddatblygu a dangos eu hymrwymiad i egwyddorion tegwch drwy:

- feithrin cydberthnasau cadarnhaol â dysgwyr, cydweithwyr a rhieni/gofalwyr lle y bo'n briodol, yn seiliedig ar barch ac ymrwymiad i degwch
- deall y rhwystrau posibl i ddysgu (gwybyddol, cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol, economaidd) a'r cyfraniad y gallant ei wneud at oresgyn y rhwystrau hynny drwy addysgu effeithiol.

Arfer cyfrifoldeb corfforaethol
Dylai partneriaethau roi gwybodaeth i athrawon dan hyfforddiant am eu cyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol fel athrawon, a'u helpu i'w deall. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am:

- strwythur a threfniadaeth systemau addysgol, yn enwedig system addysg Cymru
- y fframwaith statudol a'r prosesau llunio polisïau sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru
- ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA) a'i oblygiadau o ran hawliau dysgwyr
- nodau, dibenion a threfniadaeth y sector lle byddant yn addysgu a'u cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol yn y sector hwnnw
- nodau, dibenion a threfniadaeth sectorau addysg eraill a all effeithio ar y cyfnod pontio o un sector i sector arall
- natur diwylliant ysgol a sut mae'n effeithio ar addysgu a dysgu
- rôl gyfrifol athro mewn perthynas â dysgwyr a'r gymuned ehangach
- gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant.

Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni
Dylai partneriaethau helpu i feithrin dealltwriaeth ac ymrwymiad athrawon dan hyfforddiant i arwain dysgu drwy brofiadau cydweithredol mewn ysgolion a chyd-destunau eraill. Dylai athrawon dan hyfforddiant gael eu hannog a'u cefnogi i ddangos a modelu'r canlynol:

- rhinweddau ymarfer proffesiynol personol sy'n dylanwadu ar ymarfer eraill yn gadarnhaol gan gynnwys cyd-athrawon dan hyfforddiant, athrawon, cynorthwywyr dysgu ac oedolion eraill.

Cefnogi rolau arwain ffurfiol

Dylai partneriaethau gynnig cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant arsylwi a datblygu dealltwriaeth o natur cyfrifoldebau o fewn ac ar draws timau a'r cyfraniad y mae unigolion yn ei wneud at lwyddiant ysgol. Dylent gynnwys cyfleoedd, ymhlith pethau eraill, i:

- feithrin dealltwriaeth o ethos a gweledigaeth yr ysgol
- arsylwi ar gydweithwyr yn eu rolau fel arweinwyr addysgol yn yr ysgol a'u gwerthfawrogi
- datblygu gwerthfawrogiad o natur cyfrifoldebau o fewn adrannau a thimau yn yr ysgol a rhyngddynt
- cyfrannu, fel y bo'n briodol, at agweddau eraill ar fywyd yr ysgol e.e. drwy weithgareddau allgyrsiol.

Atodiad 4: Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY

O dan ddeddfwriaeth, mae pob AGA sy'n dyfarnu SAC yn galluogi'r athrawon hynny i addysgu ar draws amrywiaeth o leoliadau a gynhelir yng Nghymru. Mae rhaglenni AGA a achredwyd a dyfarnu SAC yn sicrhau bod athrawon yng Nghymru yn barod i addysgu a chefnogi pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr mewn lleoliadau prif ffrwd ag ADY, a dysgwyr mewn ysgolion arbennig.

Wrth gasglu tystiolaeth rhanddeiliaid i lywio'r iteriad hwn o'r Meini Prawf, daeth yn amlwg bod pryderon ynghylch rhaglenni AGA addas ar gyfer y sector addysg arbennig. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i archwilio'r pryderon hyn ac i wneud argymhellion ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Ein nod yw pennu a oes unrhyw newidiadau'n ofynnol yn fframwaith AGA Cymru er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth a chefnogi eu dyheadau.

Disgwylir i'r broses o ail-achredu rhaglenni AGA sy'n bodoli eisoes ddechrau yn 2023, ac mae'r gofyniad am adolygiad cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn ystyried yn llawn y modd rydym yn cefnogi dysgwyr mewn ysgolion arbennig yn galw am ddau ddull gweithredu gwahanol. Y cyntaf fydd archwilio anghenion eu gweithlu ag arbenigwyr a'r sector addysg arbennig a ph'un a yw'r system AGA bresennol yn sicrhau athrawon newydd o ansawdd uchel sy'n barod ac yn gallu addysgu yn eu lleoliadau, a diwallu anghenion eu dysgwyr yn llawn. Yr ail yw cyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd dros dro yn y *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.* Bydd hyn yn golygu y gellir archwilio tystiolaeth o AGA priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a all alluogi athrawon i weithio mewn ysgolion cynradd (prif ffrwd ac arbennig) gyda lefel o arbenigedd ADY.

Felly, gwahoddir Partneriaethau AGA i ystyried rhaglenni cynradd ôl-raddedig peilot, sy'n cwmpasu'r Cwricwlwm cynradd, gydag arbenigedd ADY i Gyngor y Gweithlu Addysg ei achredu. O ystyried natur arbenigol y rhaglenni peilot arfaethedig a'r gronfa fach o bosibl o arbenigedd presennol a'r galw gan fyfyrwyr yng Nghymru, efallai y bydd Partneriaethau hefyd am ystyried cydweithio wrth gynllunio, cyflwyno a darparu rhaglen beilot.

Os caiff unrhyw raglen ei hachredu'n llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y canlyniadau i athrawon dan hyfforddiant a'r adborth gan ysgolion, eu dysgwyr a'n partneriaid gan gynnwys Partneriaethau AGA, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, awdurdodau lleol a sefydliadau gwella ysgolion, ynghyd â'r gwaith a amlinellir uchod. Gwahoddir Partneriaethau AGA sy'n ystyried cyflwyno rhaglenni peilot o dan yr atodiad hwn i gydweithio â Llywodraeth Cymru ar y ffordd orau o werthuso effaith y rhaglenni peilot a llywio'r adolygiad ehangach.

Nid oes unrhyw ddisgwyliadau ar y canlyniad posibl a'r argymhellion; mae amrywiaeth eang o opsiynau, gyda rhai ohonynt yn hysbys, ond mae'n debygol bod llawer ohonynt yn anhysbys hyd yma. Mae'n bosibl yr argymhellir na ddylid gwneud unrhyw newid i'r system bresennol, ac y dylid tynnu'r rhaglenni peilot yn ôl, drwy'r amrywiaeth o opsiynau posibl hyd at ac yn cynnwys newid rheoliadol i'r cymwysterau sy'n ofynnol i weithio mewn lleoliadau ysgol arbennig a gynhelir.

Mae ysgolion arbennig wedi bod yn rhan bwysig o'n darpariaeth AGA yng Nghymru, yn ystod y diwygiadau i AGA a chyfnod y pandemig. O dan y Meini Prawf diwygiedig, byddant yn parhau i fod yn werthfawr, wrth iddynt gynnig dysgu, profiadau ac arbenigedd hanfodol

i'n hathrawon dan hyfforddiant sy'n paratoi i addysgu mewn lleoliadau ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig.

Recriwtio: gwybodaeth dechnegol i Bartneriaethau

Caiff y cyflenwad cenedlaethol o athrawon ar gyfer y sector cynradd a'r sector uwchradd ei reoli drwy'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon. Ar hyn o bryd, mae gofynion y sector ysgolion arbennig (wedi'u rhannu rhwng demograffeg dysgwyr ac athrawon cynradd ac uwchradd) wedi'u hymgorffori yn y model. Ni cheir dyraniad ar wahân ar gyfer athrawon ysgolion arbennig oherwydd maint bach y nifer o ddysgwyr ac athrawon yn y lleoliadau hynny; byddai dyraniad ar wahân yn arwain at lefelau uchel o anwadalrwydd yn allbynnau Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon Cymru bob blwyddyn sy'n golygu y byddai darpariaeth AGA yn y maes hwn yn anghynaliadwy.

Bydd unrhyw ysgol gynradd â rhaglen ADY a achredwyd o dan y Meini Prawf hyn yn agored i ddyraniadau ar lefel genedlaethol a roddir i Gyngor y Gweithlu Addysg gan Lywodraeth Cymru. Byddai athrawon sy'n cymhwyso drwy'r rhaglenni hyn yn cael SAC a byddent yn gymwys i addysgu mewn unrhyw leoliad cynradd a gynhelir ac felly byddent yn rhan o'r cyflenwad ar gyfer y gweithlu ysgolion cynradd ehangach. Felly, ni fyddai dyraniadau rhaglenni Cyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer unrhyw raglen AGA gynradd newydd ar lefel sefydliad yn ogystal â'r dyraniad ar gyfer rhaglenni cynradd presennol a achredir i raddedigion a ddarperir gan y Bartneriaeth honno.

Dylai partneriaethau ystyried cynaliadwyedd eu rhaglenni cynradd presennol ar ôl i unrhyw ostyngiad angenrheidiol gael ei gymhwyso cyn cyflwyno unrhyw raglen beilot i gael ei hachredu. Gall Cyngor y Gweithlu Addysg benderfynu craffu ar yr effaith ar raglenni cynradd presennol a gyflwynir gan y Partneriaethau ac, yn unol â'r broses achredu ar gyfer y rhaglenni peilot, gall ofyn am ragor o wybodaeth a thystiolaeth gan y Bartneriaeth bod rhaglenni cynradd ‘traddodiadol’ yn parhau i fodloni eu statws achrededig ar ôl y gostyngiad gofynnol mewn niferoedd i gyflwyno'r rhaglen gynradd ADY arbenigol ychwanegol.

Bydd y broses o reoli'r cyflenwad o athrawon ar gyfer y sector ysgolion arbennig a'r defnydd o Fodel Cynllunio a Chyflenwi Athrawon Cymru yn rhan o'r gwaith a wneir gan yr adolygiad ehangach o anghenion AGA ar gyfer ysgolion arbennig.

Meini prawf ar gyfer rhaglen AGA gynradd i raddedigion ag arbenigedd ADY

Dylai pob rhaglen AGA ar gyfer paratoi athrawon ar gyfer dyfarniad SAC gan y sector a gynhelir fodloni'r holl feini prawf ar gyfer achredu. Fodd bynnag, mae'r isod yn ategu'r meini prawf penodol a geir ym mhrif gorff y ddogfen hon ac mae'n amlinellu'r ystyriaethau, yr ychwanegiadau **a'r eithriadau** sy'n ofynnol ar gyfer achredu'r rhaglenni penodol y mae'r atodiad hwn yn cyfeirio atynt.

Oni chaiff eithriad ei nodi isod, ni chaiff unrhyw raglen ei hachredu oni fydd yn bodloni'r holl feini prawf gofynnol a nodir yn y ddogfen hon.

Ysgolion Partner

- Dylai pob ysgol, gan gynnwys ysgolion arbennig ac ysgolion ag unedau ADY sydd am ymuno â Phartneriaeth a chyflwyno AGA fodloni'r holl ofynion, rolau a chyfrifoldebau fel y nodir yn y Meini prawf.

Cyfrifoldebau Ysgolion a SAUau

- Dylai staff ysgol ac SAU sydd ag arbenigedd priodol yn yr ADY y mae'r rhaglen yn ei gwmpasu fod ar gael i sicrhau y gall athrawon dan hyfforddiant gael cyfleoedd rheolaidd wedi'u strwythuro o fyfyrio ar eu profiad yn yr ysgol a'i ddadansoddi, gan ddefnyddio mathau eraill o wybodaeth broffesiynol gan gynnwys damcaniaeth, ymchwil a gwybodaeth am ymarfer addysgu ADY mewn mannau eraill.
- Dylai'r gymhareb staff addysgu i athrawon dan hyfforddiant a ariennir gan y Bartneriaeth fod yn un aelod o staff addysgu cyfwerth ag amser llawn i bob 15 o athrawon dan hyfforddiant. Yn achos y ddarpariaeth hon, dylid gwasgaru staff ag arbenigedd ADY priodol rhwng SAUau ac ysgolion fel sy'n briodol i gyflawni'r meini prawf penodedig, i gwmpasu darpariaeth, ac athrawon dan hyfforddiant.

Y Gymraeg

- Mae'r holl Feini prawf ac ystyriaethau sy'n ymwneud ag 4.6 Y Gymraeg yn parhau i fod yn weithredol.

Cynllunio cyrsiau

Ar gyfer rhaglenni peilot a gyflwynir o dan yr atodiad hwn, caiff y canlynol ei gynghori:

- Y gofyniad yw i ddim mwy na 30% o brofiad mewn ysgol sy'n digwydd y tu allan i amgylchedd dysgu prif ffwrdd gael ei **ddatgymhwyso.**
- Ar gyfer y rhaglenni peilot hyn, dylai Partneriaethau sicrhau nad oes mwy na 50% o'r profiad mewn ysgol yn digwydd y tu allan i amgylchedd dysgu prif ffrwd er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn barod i addysgu mewn lleoliadau cynradd prif ffrwd gyda a heb ADY, ac amgylcheddau ADY cynradd arbenigol.

Gofynion derbyn a gweithdrefnau dethol

- Rhaid i'r holl ofynion mynediad a'r gweithdrefnau dethol fodoli o hyd ac at ddibenion y rhaglenni hyn, dylid cymhwyso'r gofynion mynediad ar gyfer ysgolion cynradd.

Cynnwys y rhaglen

- Dylai Partneriaethau AGA fod yn glir yn eu cyflwyniadau ar yr arbenigedd ADY y mae rhaglenni unigol yn ei gwmpasu. Gallai hyn gynnwys, ymysg pethau eraill, ddysgwyr niwramrywiol (neu sydd ag agweddau penodol ar niwroamrywiaeth) neu ddysgwyr byddar.

Fel y cyfryw, ynghyd â'r gofynion fel y nodir o dan adran 5.9 dylai rhaglenni fynd i'r afael â phynciau sy'n cwmpasu'r astudiaethau proffesiynol ac addysgegol craidd a fydd yn defnyddio amrywiaeth o ddamcaniaethau, ymchwil ac adnoddau deallusol eraill i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o'r arbenigedd ADY y maent yn astudio ar ei chyfer fel y mae'n berthnasol i'r ystod oedran (cynradd) y byddant yn ei addysgu.

Canlyniadau'r rhaglenni

- Mae'r holl Feini Prawf ac ystyriaethau sy'n ymwneud ag Adran C: *Canlyniadau'r rhaglenni* a dyfarnu SAC yn bodoli o hyd.